Llywodraeth EM

# Y gorau o'r ddau fyd: statws arbennig y Deyrnas Unedig mewn Undeb Ewropeaidd diwygiedig

# Y gorau o’r ddau fyd: statws arbennig y Deyrnas Unedig mewn Undeb Ewropeaidd diwygiedig

Cyflwynwyd i’r Senedd yn unol ag adran 6 o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015

Mae cyhoeddi’r adroddiad hwn yn cyflawni’r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth a nodwyd yn adran 6 o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015

Chwefror 2016

OGL

© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Europe Directorate, Foreign and Commonwealth Office, Llundain SW1A 2AH

ISBN Argraffu 9781474128827

ISBN y We 9781474128834

ID 16021602 02/16 54284 19585

Wedi'i argraffu ar bapur y mae o leiaf 75% ohono'n ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Rhagair gan y Prif Weinidog** **5**

**Pennod 1 – crynodeb gweithredol** **7**

**Pennod 2 – ein statws arbennig mewn UE diwygiedig** **13**

A. Llywodraethu economaidd 14

B. Cystadleurwydd 19

C. Sofraniaeth 25

D. Y system lles a symud yn rhydd 29

E. Cytundeb cyfreithiol rwymol 34

**Pennod 3 – amddiffyniadau ehangach ac optio allan** **38**

**Pennod 4 – y gorau o'r ddau fyd: pam y dylai'r DU aros yn aelod o UE diwygiedig** **40**

# Rhagair gan y Prif Weinidog



Rydym wedi sicrhau setliad newydd i roi statws arbennig i'r Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd. Fel y mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro, byddwn yn cael ein heithrio'n barhaol o fod yn rhan o undeb agosach fyth, a hynny'n sicrhau na fyddwn byth yn rhan o uwch-wladwriaeth Ewropeaidd. Bydd cyfyngiadau newydd llym ar fynediad i'n system lles ar gyfer ymfudwyr o'r UE, fel na fydd pobl sy'n dod i'n gwlad yn gallu cymryd cyn cyfrannu o hyn ymlaen. Ac rydym hefyd wedi sicrhau amddiffyniadau hanfodol i'n heconomi, gyda phob hawl i fynegi barn am reolau'r farchnad sengl ar gyfer masnach rydd, gan aros y tu allan i Ardal yr Ewro.

Mae ein statws arbennig yn rhoi i ni'r gorau o'r ddau fyd. Byddwn o fewn y rhannau o Ewrop sy'n gweithio i ni – yn dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnom, wrth y llyw yn y farchnad fwyaf yn y byd a'r gallu gennym i gymryd camau i gadw ein pobl yn ddiogel. Ond byddwn y tu allan i'r rhannau o Ewrop nad ydynt yn gweithio i ni. Felly yn ogystal â pheidio â bod yn rhan o undeb agosach fyth, ni fyddwn byth yn ymuno â'r ewro a byth yn cyfrannu at gamau i ddiogelu Ardal yr Ewro nac yn rhan o'r ardal ddi-ffiniau heb basbortau.

Mae pob un o'r 28 o arweinwyr yn yr UE wedi cytuno ar y diwygiadau rydym wedi'u sicrhau drwy'r negodi hwn. Mae'r diwygiadau'n gyfreithiol rwymol ac ni ellir eu dad-wneud heb ein cytundeb ni a phob un o wledydd eraill yr UE. Roedd pob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'n glir hefyd y byddai'r Cytuniadau'n cael eu newid i ymgorffori'r amddiffyniadau i'r DU fel economi y tu allan i Ardal yr Ewro; a'r eithriad parhaol i ni rhag bod yn rhan o undeb agosach fyth.

Wrth gwrs, mae rhagor i'w wneud eto. Fi yw'r cyntaf i ddweud bod angen i Ewrop wella mewn nifer o ffyrdd eto. Nid yw'r dasg o ddiwygio'r Undeb Ewropeaidd yn gorffen gyda'r cytundeb hwn, a byddaf yn parhau i geisio sicrhau'r diwygiadau pellach y mae ar Ewrop eu hangen ac y mae pobl Prydain am eu gweld. Ond o gael y statws arbennig y mae'r setliad hwn yn ei roi i ni, rwyf yn credu bod yr amser wedi dod i mi gyflawni'r ymrwymiad a wneuthum wrth sefyll am ail dymor yn Brif Weinidog. Felly rwyf yn cynnig i'r Senedd y bydd pobl Prydain yn penderfynu ar ein dyfodol yn Ewrop drwy refferendwm ar aros neu adael ar ddydd Iau 23 Mehefin.

Bydd hon yn adeg sy'n codi unwaith mewn cenhedlaeth i lywio dyfodol ein gwlad. Beth bynnag fydd penderfyniad pobl Prydain, byddaf yn gwneud popeth yn fy ngallu i wneud iddo weithio. Ond gadewch i mi ddweud beth rydw i'n ei gredu.

Ar fater Ewrop, rwyf wedi gwneud asesiad ymarferol ar sail yr hyn sydd o'r lles pennaf i ni, nid ar sail unrhyw fath o ymlyniad emosiynol. Mae amheuon wedi bod gennyf, yn sicr, ynghylch yr Undeb Ewropeaidd fel sefydliad ac maen nhw gennyf o hyd. Ond y cwestiwn i mi fel Prif Weinidog yw beth sydd orau i'n gwlad. Sut y byddwn yn gwneud ein gwlad yn gryfach, yn fwy diogel ac yn fwy llewyrchus?

Ar ôl i ni gael y cytundeb newydd hwn, rwyf yn credu bod yr atebion i'w cael o fewn Undeb Ewropeaidd diwygiedig. Rwyf yn credu y byddwn yn gryfach wrth aros mewn Ewrop ddiwygiedig nag y byddem ar ein pen ein hunain gan ein bod yn gallu chwarae rhan flaenllaw yn un o sefydliadau mwyaf y byd o'r tu mewn, gan helpu i wneud y penderfyniadau pwysig ar fasnach a diogelwch a fydd yn pennu ein dyfodol. Credaf y byddwn yn fwy diogel wrth aros mewn Ewrop ddiwygiedig gan ein bod yn gallu cydweithio â'n partneriaid yn Ewrop i ymladd yn erbyn troseddu ar draws ffiniau a therfysgaeth, gan gydsefyll yn gadarn mewn byd lle mae peryglon ar gynnydd. Ac rwyf yn credu y byddwn yn well ein byd wrth aros mewn Ewrop ddiwygiedig gan y bydd busnesau Prydain yn cael mynediad llawn i'r farchnad sengl ar gyfer masnach rydd sy'n cynnwys 500 miliwn o bobl, gan ddod â swyddi, buddsoddi a phrisiau is.

Byddai gadael Ewrop yn bygwth ein diogelwch economaidd a'n diogelwch gwladol. Nid yw'r rheini sydd am ein gweld yn gadael yn gallu dweud a fyddai busnesau Prydain yn gallu cael mynediad i farchnad sengl Ewrop ar gyfer masnach rydd, neu a fydd swyddi ein gweithwyr yn ddiogel neu o faint y byddai prisiau'n codi. Yr unig beth maent yn ei gynnig yw risg mewn cyfnod o ansicrwydd – naid i'r tywyllwch. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n iawn i Brydain.

Mae fy argymhelliad yn glir: rwyf yn credu y bydd pob teulu, cartref, busnes, cymuned a chenedl o fewn y Deyrnas Unedig yn gryfach, yn fwy diogel ac yn fwy llewyrchus wrth aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd diwygiedig hwn.



# Pennod 1 – crynodeb gweithredol

1.1 Ers yr Etholiad Cyffredinol ym Mai 2015 mae'r Llywodraeth wedi dilyn agenda ar gyfer diwygio ac ailnegodi er mwyn sicrhau newid yn ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd, y gellir ei gyflwyno i bobl Prydain wedyn yn y refferendwm cyntaf ar aelodaeth y DU o'r UE er 1975.

1.2 Yn dilyn misoedd o negodi, yn y cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd ar 18-19 Chwefror sicrhaodd y Llywodraeth setliad newydd i'r DU mewn UE diwygiedig, na ellid ei ddad-wneud heb ein cydsyniad ni.

1.3 Mae'r setliad hwn yn sicrhau holl amcanion y DU, a nodwyd gan y Prif Weinidog, ac yn rhoi statws arbennig i'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â rhoi'r UE cyfan ar ben ffordd ar gyfer diwygio hirdymor. Mae'r setliad hwn yn gwneud i'r UE weithio'n well o lawer i'r DU ond mae angen ei wella o hyd mewn nifer o ffyrdd. Nid yw'r dasg o ddiwygio'r UE yn gorffen gyda'r cytundeb sydd gennym heddiw.

1.4 Mae'r cytundeb yn cynnwys pedwar maes allweddol: llywodraethu economaidd; cystadleurwydd; sofraniaeth; a'r system lles a'r gallu i symud yn rhydd.

## Llywodraethu economaidd

1.5 Rydym wedi diogelu hawliau'r DU fel gwlad o fewn y Farchnad Sengl, ond y tu allan i Ardal yr Ewro, i gadw ein heconomi a'n system ariannol yn ddiogel ac amddiffyn busnesau'r DU rhag gwahaniaethu annheg. Rydym wedi cael cytundeb ar set o egwyddorion cyfreithiol rwymol a fydd yn sicrhau na fydd rheolau'r UE yn cosbi, yn cau allan nac yn gwahaniaethu yn erbyn y DU am ein bod wedi dewis cadw'r bunt.

1.6 Mae holl aelodau'r UE wedi cydnabod yn ffurfiol na ddylai'r DU gael ei gorfodi i gymryd rhan mewn mesurau sydd ar gyfer Ardal yr Ewro. Mae ein setliad newydd yn sicrhau amddiffyniadau pwysig i'r DU yn llywodraethiant economaidd yr UE ac mae hyn yn golygu:

- Na ellir gwahaniaethu yn erbyn busnesau o'r DU sy'n masnachu yn y Farchnad Sengl am fod y DU y tu allan i Ardal yr Ewro;
- Bod y cyfrifoldeb dros oruchwylio sefydlogrwydd ariannol y DU yn aros yn nwylo Banc Lloegr ac awdurdodau eraill yn y DU;
- Na fydd trethdalwyr y DU byth yn gorfod cyfrannu at daliadau i ddiogelu Ardal yr Ewro;
- Bydd pob trafodaeth ar faterion sy'n effeithio ar holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn cynnwys holl Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys y DU, nid aelodau o Ardal yr Ewro yn unig.

1.7 Mae holl Aelod-wladwriaethau’r UE wedi ymrwymo i’r egwyddorion hyn mewn penderfyniad o dan gyfraith ryngwladol, sy’n rhoi llawer mwy o sicrwydd i ni nag erioed o’r blaen y bydd hawliau’r DU fel gwlad nad yw’n defnyddio’r ewro yn cael eu parchu. Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori yn y Cytuniadau pan fyddant yn cael eu hadolygu nesaf.

1.8 Mae hyn wedi’i ategu gan fecanwaith diogelu a fydd yn caniatáu i’r DU fynd â’i phryderon at y Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth yn y Cyngor Ewropeaidd, os byddwn yn credu nad yw’r egwyddorion yn cael eu parchu.

## Cystadleurwydd

1.9 O ganlyniad o flynyddoedd o bwyso gan y DU, drwy gydweithio’n agos â’i chynghreiriaid, mae’r UE bellach wedi mabwysiadu agenda uchelgeisiol ar gyfer diwygio economaidd. Rydym wedi sicrhau ymrwymiad cadarn i hyrwyddo’r agenda honno’n galetach dros y blynyddoedd nesaf i helpu i ryddhau holl botensial y Farchnad Sengl a chreu twf a swyddi.

1.10 Y Farchnad Sengl – marchnad o 500 miliwn o bobl sy’n creu chwarter o CMC y byd[1] – yw cyflawniad economaidd mwyaf yr UE, ond nid yw wedi’i chwblhau eto. Mae’r DU wedi dadlau’n hir hefyd o blaid lleihau biwrocratiaeth a darparu mwy o gymorth i’n busnesau lleiaf. Drwy gydweithio â chynghreiriaid yn yr UE, rydym wedi helpu i lywio’r UE yn bendant tuag at agenda sy’n canolbwyntio ar greu swyddi, twf a gwell rheoleiddio.

1.11 Mae ein setliad newydd yn cadarnhau:

- y bydd y baich rheoleiddio ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach, yn cael ei leihau gan osod targedau penodol mewn sectorau allweddol yn unol â’r dull a fabwysiadwyd yn y DU;
- y bydd pwyslais newydd ar ymestyn y Farchnad Sengl ymhellach i helpu i leihau’r rhwystrau i fasnach a geir o hyd o fewn yr UE, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel gwasanaethau, ynni a digidol;
- y bydd yr UE yn ymrwymo o’r newydd i geisio gwneud cytundebau masnach rydd ag economïau mwyaf dynamig y byd, fel y bydd y rhwystrau ar ffurf tariffau a rheoleiddio y mae cwmnïau’r DU yn eu hwynebu mewn marchnadoedd mawr a datblygol y tu allan i’r UE yn cael eu lleihau neu eu dileu.

## Sofraniaeth

1.12 Rydym wedi sicrhau cytundeb y bydd y Cytuniadau’n cael eu newid yn y dyfodol fel y bydd y DU wedi’i heithrio o’r gofyniad am ‘undeb agosach fyth’ ac rydym wedi sefydlu mecanwaith ar gyfer dychwelyd penderfyniadau o Frwsel i’r DU a gwladwriaethau cenedlaethol eraill, lle mae hynny’n fwyaf priodol. Mae’r holl bethau hyn yn gyson ag ymagwedd hirsefydlog y DU at ein perthynas â’r UE: y dylai gael ei seilio ar gamau ymarferol i sicrhau ein buddiant cenedlaethol.

1.13 Mae ein setliad newydd yn golygu:

- ei bod wedi’i gydnabod yn ffurfiol am y tro cyntaf nad yw’r DU wedi ymrwymo i integreiddio gwleidyddol pellach â’r UE ac rydym wedi sicrhau cadarnhad penodol na fydd y cysyniad o ‘undeb agosach fyth’ yn gymwys i’r DU yn y dyfodol. Mae hyn yn

[1] Data poblogaeth a gafwyd oddi wrth Eurostat. Mae cyfran y CMC wedi’i chyfrifo ar sail cronfa ddata World Economic Outlook yr IMF (Hydref 2015)

ategu'r gofyniad statudol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd 2011 a wnaed gan Senedd y DU, sy'n ei gwneud yn amhosibl i unrhyw un o Lywodraethau'r DU drosglwyddo per i'r UE yn y dyfodol heb gynnal refferendwm. Mae'r cytundeb yn cadarnhau nad yw Aelod-wladwriaethau'r UE yn gorfod anelu at yr un cyrchfan;

- y gall seneddau cenedlaethol ddod at ei gilydd i atal cynigion deddfwriaethol diangen gan yr UE, lle na ddylai'r pŵer gael ei arfer ar lefel yr UE, gan roi mwy o lais i Senedd y DU;
- y bydd mecanwaith newydd yn cael ei greu i adolygu cyfreithiau presennol yr UE i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel genedlaethol lle bo modd ac ar lefel yr UE dim ond pan fo angen hynny (sybsidiaredd) ac mai dim ond y camau lleiaf sydd eu hangen a gymerir i gyflawni amcanion rheoleiddio (cymesuredd);
- y bydd diogelwch gwladol yn aros yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU yn unig. Ni, nid yr UE, fydd yn penderfynu wrth ystyried pob achos yn ei dro a fyddai cydweithredu â'n cymdogion yn Ewrop yn gwella ein diogelwch ein hunain
- ar faterion fel plismona a pholisi ar loches a mewnfudo, ei bod wedi'i danlinellu mai Llywodraeth a Senedd y DU fydd yn penderfynu a fyddwn yn cymryd rhan mewn gweithredu ar lefel Ewrop.

## Y system lles a symud yn rhydd

1.14 Rydym wedi sicrhau pwerau newydd i ddelio â'r camfanteisio ar yr hawl i symud yn rhydd ac i leihau atyniad annaturiol ein system budd-daliadau, er mwyn cyrraedd ein nod o leihau mewnfudo, drwy greu rheolau tecach, gan ddiogelu ein heconomi agored yr un pryd.

1.15 Mae ein setliad newydd:

- yn galluogi'r DU i osod atalfa frys newydd i gyfyngu ar hawl gweithwyr o'r UE sydd newydd gyrraedd i gael yr holl fudd-daliadau ar gyfer rhai sydd mewn gwaith am hyd at 4 blynedd pan fyddant yn ymuno â'n marchnad lafur. Bydd hyn mewn grym am 7 mlynedd;
- yn cadarnhau na fydd y DU yn gorfod talu budd-daliadau diweithdra sy'n dibynnu ar brawf modd yn y dyfodol i wladolion o'r UE sy'n dod i chwilio am swyddi yn y DU;
- yn golygu na fydd Budd-dal Plant a delir i wladolion yr UE sy'n byw yma, ond sydd â'u plant yn byw y tu allan i'r DU, yn cael ei dalu ar gyfraddau'r DU o hyn ymlaen ond ar gyfradd sy'n adlewyrchu amodau – gan gynnwys y safon byw a'r Budd-dal Plant a delir – yn y wlad lle mae'r plant yn byw;
- yn ymrwymo i wneud deddfwriaeth newydd i atal ymfudwyr anghyfreithlon rhag defnyddio priodas ag un o wladolion yr UE sy'n byw yn y DU i osgoi ein rheolau domestig llym ar fewnfudo; a bydd yn golygu bod gwladolion o'r tu allan i'r UE sy'n priodi gwladolion yr UE sy'n byw yn y DU hefyd yn gorfod bodloni ein rheolau ar fewnfudo;
- yn sicrhau mwy o ryddid i'r DU i weithredu yn erbyn y bygythiad o droseddu gan wladolion yr UE sy'n symud o gwmpas yr UE drwy atal y rheini sy'n achosi bygythiad rhag dod i mewn i'r wlad a'i gwneud yn haws eu hallgludo os ydynt wedi bod yn byw yn y DU.

1.16 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth newydd lle bo angen i weithredu setliad newydd y DU. Bydd y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop

yn cytuno ar y cyd ar y cynigion hyn gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr y prif grwpiau gwleidyddol yn Senedd Ewrop ar setliad newydd y DU. Bydd y DU hefyd yn pasio deddfwriaeth ddomestig i ategu’r setliad hwn. Mae’r Llywodraeth yn cydnabod y bydd lle i’r Gweinyddiaethau Datganoledig mewn gweithredu rhai agweddau ar y cytundeb hwn ac mae wedi ymrwymo i gydweithio’n agos â nhw ar hyn yn yr wythnosau a’r misoedd nesaf.

## Cyfreithiol rwymol

1.17 Yr elfen ganolog yn y cytundeb yw Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol a gytunwyd gan Benaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth Aelod-wladwriaethau’r UE. Mae hwn yn gytuniad rhyngwladol rhwymol.

1.18 Mae’r Penderfyniad hwn yn rhwymo holl wledydd yr UE o dan gyfraith ryngwladol a bydd yn dod i rym ar unwaith os bydd pobl Prydain yn pleidleisio i aros yn yr UE. Caiff ei gofrestru yn y Cenhedloedd Unedig, fel y gwnaed â’r Penderfyniad ar gyfer Denmarc ym 1992.

1.19 Ni ellir ei ddad-wneud ychwaith heb gydsyniad y DU: cytunwyd ar y penderfyniad gan yr holl Aelod-wladwriaethau ac ni ellir ei ddiwygio na’i ddirymu oni bai fod yr holl Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn cytuno.

1.20 Mae’n ddull profedig o roi’r sicrwydd cyfreithiol y mae ar y DU ei angen. Mae cynsail ar gyfer cytundeb o’r math hwn: fe’i defnyddiwyd yn llwyddiannus i roi sylw i bryderon pobl Denmarc ym 1992 a rhai pobl Iwerddon yn 2009.

1.21 Cytunodd y Cyngor Ewropeaidd y bydd y setliad newydd i’r DU yn peidio â bod os mai canlyniad y refferendwm fydd pleidlais y dylai’r DU adael yr UE.

## Amddiffyniadau ehangach ac optio allan

1.22 Mae’r setliad newydd hwn yn adeiladu ar sail nifer o amddiffyniadau a threfniadau optio allan sydd ar gael eisoes ar gyfer aelodaeth y DU o’r UE. Mae hyn yn golygu bod statws arbennig gan y DU yn awr o fewn yr UE – oddi mewn i’r meysydd gweithgarwch hynny sy’n gyson â buddiannau’r DU, ond y tu allan i’r rheini sy’n anghyson â’n buddiannau:

- nid yw’r DU o dan y rhwymedigaeth safonol ar Aelod-wladwriaethau i ymuno â’r ewro. Byddwn yn cadw’r bunt bob amser;
- mae’r DU wedi aros y tu allan i ardal ddi-ffiniau Schengen, sy’n golygu ein bod yn cadw rheolaeth dros ein ffiniau ein hunain. Ni fydd y DU yn ymuno ag ardal ddi-ffiniau Schengen;
- mae’r DU wedi optio allan o nifer o’r mesurau ym maes Cyfiawnder a Materion Cartref, gan optio i mewn i’r rheini sy’n hanfodol i gynnal diogelwch ein pobl.

1.23 Yn ogystal â hyn, mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd 2011, a wnaed gan Senedd y DU, yn sicrhau na ellir trosglwyddo unrhyw feysydd pŵer neu gymhwysedd ychwanegol i’r UE heb gymeradwyaeth ddatganedig gan ein senedd a chydsyniad pobl Prydain mewn refferendwm – clo democrataidd pwysig ar unrhyw integreiddio pellach ag Ewrop.

1.24 Gyda’i gilydd, mae ein setliad newydd a’n trefniadau presennol yn rhoi statws arbennig i’r DU yn yr UE. Rydym yn cadw ein hawliau fel aelod o’r UE, gan gynnwys ein sedd yn y Cyngor Ewropeaidd a’n holl hawliau i bleidleisio a rhoi feto; ond rydym y tu allan i’r ewro, y tu

allan i ardal ddi-ffiniau Schengen, y tu allan i'r mesurau Cyfiawnder a Materion Cartref oni bai ein bod yn dewis fel arall, gan gadw pob hawl i ddatgan ein barn am gyfreithiau'r Farchnad Sengl. Mae'r DU yn cymryd rhan ac yn arfer ei dylanwad yn yr UE er mwyn sicrhau ein buddiannau, ond mae gennym amddiffyniadau a threfniadau optio allan hefyd sy'n diogelu buddiannau'r DU.

Aeth y DU ati i ddatrys pedair problem allweddol yn yr UE ac rydym wedi sicrhau:

- amddiffyniad parhaol i'r bunt a'n hawl i'w chadw, sicrwydd na fydd trethdalwyr y DU byth yn gorfod cyfrannu i ddiogelu Ardal yr Ewro ac na ellir gwahaniaethu yn erbyn busnesau'r DU am ein bod y tu allan i Ardal yr Ewro;
- ymrwymiadau gan yr UE i leihau biwrocratiaeth, cwblhau'r Farchnad Sengl a llofnodi cytundebau masnach newydd i greu cyfleoedd i'n busnesau a swyddi i'n pobl;
- cytundeb ffurfiol y bydd y Cytuniadau'n cael eu newid yn y dyfodol fel y bydd y DU wedi'i heithrio o 'undeb agosach fyth' a bydd gennym bwerau newydd i atal neu ddileu cyfreithiau Ewropeaidd diangen;
- pwerau newydd i ddelio â chamfanteisio ar yr hawl i symud yn rhydd a lleihau atyniad annaturiol ein system budd-daliadau, i gyrraedd ein nod o leihau mewnfudo, drwy sicrhau na fydd rhai sydd newydd gyrraedd o'r UE yn gallu hawlio budd-daliadau llawn am hyd at 4 blynedd.

Mae'r setliad hwn yn gyfreithiol rwymol, ni ellir ei ddad-wneud ac mae'n cwrdd ag anghenion y Deyrnas Unedig.

## Y gorau o'r ddau fyd

1.25 Mae ein setliad newydd yn newid y cydbwysedd yn ein perthynas â'r UE. Mae'n cadarnhau'r manteision pendant o fod yn aelod o'r UE o ran yr economi a diogelwch, gan ei gwneud yn glir na ellir gofyn i ni gymryd rhan mewn integreiddio gwleidyddol pellach. Mae hefyd yn creu mecanwaith ar gyfer adolygu cyfreithiau presennol yr UE a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel genedlaethol, pryd bynnag y bo modd. Mae'r DU yn gryfach, yn fwy diogel ac yn fwy llewyrchus mewn UE diwygiedig.

1.26 Mae'r DU yn well ei byd yn yr UE gan ein bod yn cael mynediad i'r Farchnad Sengl ac yn chwarae rhan flaenllaw mewn penderfynu ar y rheolau ar ei chyfer. Mae 44 y cant o allforion y DU yn mynd i'r UE,[2] ac oherwydd y Farchnad Sengl nid oes tariffau na rheolaethau tollfeydd ar ddim un ohonynt. Mae gennym sedd wrth y bwrdd a dylanwad mawr ar benderfynu'r rheolau wrth iddynt ddatblygu dros amser. Oherwydd hyn, gall y DU gadw costau'n isel i fusnesau a defnyddwyr yn y DU, er enghraifft, drwy dorri cost y taliadau am drawsrwydweithio ar ffonau symudol ac am deithiau awyren ym mhob rhan o Ewrop. Mae bron hanner y mewnfuddsoddi o wledydd tramor yn y DU yn dod o'r UE.[3] Mae aelodaeth o'r UE yn caniatáu i ni barhau i ddenu buddsoddiadau o wledydd tramor i'r DU. Mae hefyd yn ein helpu i sicrhau cytundebau masnach rydd cadarn a chynhwysfawr sy'n rhoi gwell mynediad i gwmnïau'r DU i farchnadoedd y tu allan i'r UE ym mhob rhan o'r byd: mae hyn yn ategu ein cynllun economaidd hirdymor ac yn sicrhau ein ffyniant yn y dyfodol. Ar gyfer pobl Prydain,

---

2 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (2015, Tabl 9).

3 Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am fewnfuddsoddi uniongyrchol o wledydd tramor yn dangos, ar gyfer 2014, fod 48 y cant o'r stoc o fewnfuddsoddi uniongyrchol o wledydd tramor wedi dod o'r UE (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Foreign Direct Investment 2014, 3 Rhagfyr 2015).

mae hyn yn golygu bod rhagor o swyddi'n cael eu creu, bod gwell diogelwch ariannol a bod prisiau'n is.

1.27 Mae'r DU yn fwy diogel yn yr UE am fod ein haelodaeth yn rhoi mwy o allu i ni gydweithredu i ymladd yn erbyn troseddu a therfysgaeth, gan barchu'r ffaith mai Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am ddiogelwch gwladol y DU. Rydym yn fwy diogel pan yw gwledydd y Gorllewin yn unedig. Oherwydd hynny, mae ein prif gynghreiriaid o gwmpas y byd am ein gweld yn aros yn yr UE.

1.28 Ac mae'r DU yn gryfach yn yr UE am fod ein haelodaeth yn rhoi mwy o ddylanwad i ni ar y lefel ryngwladol. Rydym wedi chwarae rhan flaenllaw mewn sicrhau sancsiynau cryf ar draws yr UE pan oedd angen eu defnyddio yn erbyn Rwsia ac Iran. Rydym wedi bod ar y blaen yn ymdrechion yr UE i wrthsefyll ymlediad Ebola yn Affrica. Roedd y DU wedi chwarae rhan allweddol hefyd, drwy ein dylanwad yn yr UE, i sicrhau cytundeb rhyngwladol ar yr hinsawdd ym Mharis.

1.29 Nid yw'r dasg o ddiwygio'r UE yn gorffen gyda'r cytundeb sydd gennym heddiw. Ond mae ein setliad newydd yn rhoi i ni'r gorau o'r ddau fyd oherwydd statws arbennig y DU. Mae trefniadau optio allan ar gyfer y DU o agweddau ar aelodaeth o'r UE nad ydynt o fudd i ni, tra byddwn yn cadw'r rheini sy'n cryfhau'r DU. Rydym yn cadw ein hawl i gael mynediad llawn i Farchnad Sengl yr UE ar gyfer masnach rydd, sy'n ein gwneud yn well ein byd, ac i gymryd rhan mewn cydweithredu ar draws yr UE ar droseddu a therfysgaeth, sy'n ein gwneud yn fwy diogel. Ond ni fyddwn yn cymryd rhan mewn agweddau ar aelodaeth yr UE nad ydynt yn gweithio i ni: ni fydd y DU yn ymuno â'r ewro ac ni fyddwn byth yn cyfrannu at daliadau i ddiogelu Ardal yr Ewro nac yn rhan o ardal ddi-ffiniau Schengen. Felly mae hon yn fargen dda i'n gwlad.

1.30 Dyna pam mae'r Llywodraeth yn credu y bydd buddiant cenedlaethol y DU – a buddiannau pob teulu, aelwyd, busnes, cymuned, rhanbarth a chenedl yn y Deyrnas Unedig – yn cael ei ddiogelu orau drwy aros mewn UE diwygiedig.

# Pennod 2 – ein statws arbennig mewn UE diwygiedig

2.1 Yn y cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Chwefror, negodwyd setliad newydd gan y Llywodraeth sy'n rhoi statws arbennig i'r Deyrnas Unedig mewn UE diwygiedig. Rydym wedi sicrhau newid mewn pedwar maes:

- **llywodraethu economaidd**, lle'r ydym wedi diogelu hawliau'r DU fel gwlad y tu allan i Ardal yr Ewro, i gadw'r bunt a chadw ein heconomi'n ddiogel;
- **cystadleurwydd**, lle mae agenda uchelgeisiol gan yr UE nawr ar gyfer diwygio ei heconomi, ac rydym wedi sicrhau ymrwymiad cadarn i hyrwyddo'r agenda honno dros y blynyddoedd nesaf i ryddhau holl botensial y Farchnad Sengl ar gyfer masnach rydd a chreu twf a swyddi;
- **sofraniaeth**, lle'r ydym wedi cael sicrwydd na fydd y DU yn cymryd rhan mewn unrhyw integreiddio gwleidyddol pellach yn Ewrop, ac wedi cael cadarnhad penodol na fydd y cysyniad o 'undeb agosach fyth' yn gymwys i'r DU yn y dyfodol, ac wedi cryfhau seneddau cenedlaethol;
- **y system lles a symud yn rhydd**, lle'r ydym wedi sicrhau mesurau newydd i ddelio â chamfanteisio ar ein system lles a mewnfudo, a chreu rheolau tecach gan gadw ein heconomi agored.

2.2 Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau'r newidiadau hyn mewn pecyn a gytunwyd gan Benaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth pob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE.

2.3 Mae ffurf y pecyn yn bwysig. Mae'n cynnwys:

- **Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol;**[4] mae hwn yn gytundeb cyfreithiol rwymol rhwng yr Aelod-wladwriaethau. Mae'n cwmpasu pob un o'r pedwar maes ac yn cynnwys ymrwymiad cadarn i ddiwygio Cytuniadau'r UE mewn meysydd allweddol. Ni ellir ei newid heb gydsyniad y DU;
- **Datganiad gan bob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau**[5] yn rhwymo pob un ohonynt i gytuno ar fecanwaith cyfreithiol rwymol i ddiogelu buddiannau Aelod-wladwriaethau fel y DU sydd y tu allan i Ardal yr Ewro;

---

4 *A Decision of the Heads of State or Government, meeting within the European Council, concerning a New Settlement for the United Kingdom within the European Union.* Mae'r holl ddogfennau yn y pecyn ar gael yn: http://www.consilium.europa.eu/en/press/press-releases/2016/02/19-euco-conclusions/

5 Datganiad ar adran A o benderfyniad y Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth, a oedd wedi cwrdd o fewn y Cyngor Ewropeaidd, ynghylch Setliad Newydd i'r Deyrnas Unedig o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

- **Datganiad gan y Cyngor Ewropeaidd;**[6] mae hwn yn amlinellu ymrwymiad newydd gan y Cyngor Ewropeaidd i wella cystadleurwydd yr UE;
- **pedwar datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd;**[7] mae'r rhain yn gysylltiedig â rhannau penodol o'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol. Maent yn dangos sut y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gweithredu yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys camau i gyflwyno cyfreithiau newydd i'r UE;
- **Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ar y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.**

2.4 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth newydd lle bo angen i weithredu setliad newydd y DU. Bydd y Cyngor a Senedd Ewrop yn cytuno ar y cyd ar y cynigion hyn gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr y prif grwpiau gwleidyddol yn Senedd Ewrop ar setliad newydd y DU. Bydd y DU hefyd yn pasio deddfwriaeth ddomestig i ategu'r setliad hwn. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd lle i'r Gweinyddiaethau Datganoledig mewn gweithredu rhai agweddau ar y cytundeb hwn ac mae wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â nhw ar hyn yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

2.5 Bydd y trefniadau newydd sydd yn y pecyn hwn yn peidio â bod os mai canlyniad y refferendwm fydd pleidlais y dylai'r DU adael yr UE.

2.6 Mae'r ddogfen hon yn rhoi esboniad manwl o'r setliad newydd hwn ar gyfer y DU mewn UE diwygiedig.

## A. Llywodraethu economaidd

2.7 **Mae ein setliad newydd yn diogelu buddiannau gwledydd fel y DU sydd o fewn y Farchnad Sengl ar gyfer masnach rydd ond y tu allan i'r ewro. Ochr yn ochr â chydnabyddiaeth na ddylai'r DU gael ei gorfodi i gymryd rhan mewn mesurau sydd ar gyfer Ardal yr Ewro, mae'r cytundeb hwn yn sicrhau statws arbennig i'r DU mewn perthynas â materion economaidd gydag amddiffyniadau pwysig i'r DU yn nhrefniadau llywodraethu'r UE. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cadw'r bunt:**

- ni ellir gwahaniaethu yn erbyn busnesau yn y DU sy'n masnachu yn y Farchnad Sengl am fod y DU y tu allan i Ardal yr Ewro;
- mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio sefydlogrwydd ariannol y DU yn aros yn nwylo Banc Lloegr ac awdurdodau eraill yn y DU;
- ni fydd trethdalwyr y DU byth yn gorfod talu am fesurau i ddiogelu Ardal yr Ewro;
- bydd yr holl drafodaethau am faterion sy'n effeithio ar holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn cynnwys holl Aelod-wladwriaethau'r UE, nid aelodau Ardal yr Ewro yn unig.

2.8 Cytunwyd ar yr egwyddorion hyn gan bob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau yn y penderfyniad cyfreithiol rwymol a byddant yn cael eu hymgorffori yn y Cytuniadau y tro nesaf iddynt gael eu hadolygu. Os bydd y DU yn pryderu nad yw'r egwyddorion hyn yn cael eu parchu, mae mecanwaith diogelu ar gael i ni hefyd i fynd â'n pryderon i'r Cyngor Ewropeaidd.

---

6 Datganiad y Cyngor Ewropeaidd ar gystadleurwydd.

7 Datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar fecanwaith gweithredu sybsidiaredd a mecanwaith gweithredu i leihau beichiau; Datganiad y Comisiwn Ewropeaidd ar y Mecanwaith Diogelu y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2(b) o Adran D o'r penderfyniad; Datganiad y Comisiwn Ewropeaidd ar faterion sy'n gysylltiedig â chamfanteisio ar yr hawl i bersonau symud yn rhydd – Atodiad F; Datganiad y Comisiwn Ewropeaidd ar fynegrifo budd-daliadau plant a allforir i Aelod-wladwriaeth heblaw honno lle mae'r gweithiwr yn preswylio.

2.9 Mae'r cytundeb hwn yn diogelu lle'r DU ar ganol y Farchnad Sengl ond y tu allan i Ardal yr Ewro. Mae'n gosod sylfaen ar gyfer perthynas hir a theg rhwng Ardal yr Ewro ac Aelod-wladwriaethau nad ydynt yn defnyddio'r ewro. Cofnodwyd yr egwyddorion hyn yn Adran A o'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol.

## Cydnabyddiaeth na ddylai'r DU gael ei gorfodi i gymryd rhan mewn mesurau sydd ar gyfer Ardal yr Ewro

2.10 Yn ystod negodiadau ar Gytuniad Maastricht, a gytunwyd ym 1992, sicrhaodd y DU hawl i optio allan yn barhaol o'r gofyniad i ymuno â'r ewro. Cadwyd yr hawl hon. Nid oes bwriad gan y Llywodraeth i fabwysiadu'r ewro yn arian i'r DU, ac mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i basio Deddf Seneddol a chynnal refferendwm cyn i'r DU allu gwneud hynny. Mewn geiriau syml: ni fyddwn yn ymuno â'r ewro.

2.11 Fodd bynnag, mae'r broses o ddatblygu'r ewro yn brosiect pwysig i'r UE wedi creu amheuaeth ynghylch a fydd gwledydd fel y DU nad ydynt yn defnyddio'r ewro yn cael eu trin yn deg. Mae'r setliad newydd yn rhoi sylw i hyn. Agwedd bwysig ar hyn yw'r gydnabyddiaeth hon yn y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol: “not all Member States have the euro as their currency”. Dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei gydnabod yn benodol ac mae'n sail i'n setliad newydd mewn UE sy'n trin Aelod-wladwriaethau'n gyfartal pa arian bynnag y maent yn ei ddefnyddio.

2.12 Mae Ardal yr Ewro yn bartner masnachu allweddol i'r DU[8]. Mae economi sefydlog, lwyddiannus yn Ardal yr Ewro yn hollbwysig i ddiogelwch economaidd y DU ei hun. Dyma pam y mae'r Llywodraeth o blaid diwygio ac integreiddio Ardal yr Ewro a bydd yn parhau i gefnogi hyn. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y setliad newydd.

2.13 Yn dilyn yr argyfwng ariannol, gwnaeth Ardal yr Ewro ddiwygiadau pwysig ac angenrheidiol i sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor. Ymhlith y rhain yr oedd llywodraethu cryfach ac integreiddio dyfnach. Yn Adroddiad y Pum Llywydd ym Mehefin 2015 ar Gwblhau Undeb Economaidd ac Ariannol Ewrop[9], cynigiwyd nifer o fesurau a fyddai'n symud Ardal yr Ewro tuag at Undeb Economaidd, Undeb Ariannol ac Undeb Cyllidol agosach. Y rhain yw'r camau nesaf y gellid eu dilyn yn yr hyn y mae'r Canghellor wedi'i alw'n “inexorable logic” yr integreiddio yn Ardal yr Ewro.[10]

2.14 Mae'r DU yn cefnogi ymdrechion Ardal yr Ewro i ddiwygio. Fodd bynnag, wrth i Ardal yr Ewro gymryd y camau sydd eu hangen i lwyddo, mae yr un mor bwysig na fydd y DU yn cael ei gorfodi i gymryd rhan ac na fydd ei buddiannau'n cael eu tanseilio. Yn y gorffennol, nid yw hyn wedi bod yn glir bob amser. Er enghraifft, pan gytunodd Ardal yr Ewro i sefydlu Undeb Bancio, roedd yn rhaid i'r DU negodi i sicrhau na fyddai'n cynnwys y DU.

2.15 Mae'r cytundeb hwn yn adeiladu ar drefniadau presennol y DU ar gyfer optio allan ac yn cydnabod: “measures, the purpose of which is to further deepen economic and monetary union, will be voluntary for Member States whose currency is not the euro and will be open to their participation wherever feasible”. Felly os bydd Ardal yr Ewro yn cytuno ar drefniadau newydd i wneud i'r ewro weithio'n well, ni ddylai'r DU orfod cymryd rhan ynddynt. Bydd yn

---

8 Mae 39% o allforion y DU yn mynd i wledydd Ardal yr Ewro – Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Pennod 9.3).

9 https://ec.europa.eu/priorities/publications/five-presidents-report-completing-europes-economic-and-monetary-union_en

10 https://www.gov.uk/government/speeches/extracts-from-the-chancellors-speech-on-europe

ofynnol o hyd fod unrhyw newid mewn Cytuniadau yn y dyfodol ar lefel yr UE yn cael eu cytuno gan bob un o'r Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU.

## Cedwir integredd y Farchnad Sengl, ac ni ellir gwahaniaethu yn erbyn busnesau'r DU sy'n masnachu yn y Farchnad Sengl am fod y DU y tu allan i Ardal yr Ewro

2.16 Wrth i ni barhau i ddefnyddio'r bunt, rhaid i unigolion a chwmnïau sydd yn y DU barhau i gael holl fanteision economaidd y Farchnad Sengl a'i 500 miliwn o ddefnyddwyr a'i heconomi o bron £11 triliwn.[11] Dyma un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Prif Weinidog yn ei araith yn Bloomberg yn 2013, pan eglurodd "our participation in the Single Market, and our ability to help set its rules is the principal reason for our membership of the EU.[12]

2.17 Mae'r cytundeb yn datgan yn benodol y bydd integredd y Farchnad Sengl yn cael ei ddiogelu. Yn benodol, mae'n cadarnhau "legal acts, including intergovernmental agreements between Member States, directly linked to the functioning of the euro area shall respect the internal market". Cadw marchnad agored, integredig sy'n masnachu â'r byd rhwng 28 o Aelod-wladwriaethau yw'r hyn sydd wedi bod wrth wraidd aelodaeth y DU o'r UE erioed ac mae'n hollbwysig er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial am dwf yn Ewrop. Drwy lynu wrth yr egwyddor hon, byddwn yn sicrhau bod yr UE a datblygiad y Farchnad Sengl yn y dyfodol yn gweithio er budd ei holl aelodau, nid y rheini sydd yn Ardal yr Ewro yn unig.

2.18 Mae'r cytundeb hefyd yn egluro: "discrimination between natural or legal persons based on the official currency of the Member State, or, as the case may be, the currency that has legal tender in the Member State, where they are established is prohibited".

2.19 Mae'r egwyddor hon o beidio â gwahaniaethu yn erbyn busnesau mewn gwledydd nad ydynt yn defnyddio'r ewro yn amddiffyniad hanfodol i'r DU. Ei phwrpas yw ymateb i achosion lle byddai wedi bod yn bosibl i statws economaidd y DU yn y Farchnad Sengl gael ei danseilio gan benderfyniadau yr oedd Ardal yr Ewro am eu gwneud. Er enghraifft, pe byddai polisi Banc Canolog Ewrop o fynnu bod tai clirio sy'n trafod symiau mawr o ewros yn cael eu lleoli yn Ardal yr Ewro wedi cael ei weithredu, byddai hyn wedi creu Marchnad Sengl ddwy haen i bob pwrpas, ac wedi gallu gorfodi cwmni rhyngwladol a oedd â'i bencadlys yn y DU, a oedd yn gyfrifol am glirio deilliadau cyfraddau llog o tua £200 triliwn,[13] i adleoli i Ardal yr Ewro. Dirymwyd y polisi hwn gan Lys Cyffredinol yr UE ar ôl her gyfreithiol gan y DU.

2.20 Mae cadw integredd y Farchnad Sengl a sicrhau nad oes gwahaniaethu yn bwysig iawn i sector gwasanaethau ariannol y DU. Mae'r sector hwn yn cyflogi mwy na miliwn o bobl ledled y DU, yn cyfrannu mwy na 7 y cant i gynnyrch economaidd y DU,[14] yn creu 13 y cant o allforion y DU[15] ac yn cynhyrchu gwarged masnach o bron £60 biliwn.[16] Er mwyn economi'r DU ac i sicrhau statws Llundain fel prif ganolfan ariannol y byd, mae'n hanfodol bod y sector yn parhau i gael mynediad i farchnad ariannol sengl ar draws yr UE. Mae'r cytundeb hwn yn

---

11 Ffynhonnell: Eurostat; y ffynhonnell wedi'i chyfrifo mewn ewros yn wreiddiol.

12 Bloomberg – 23 Ionawr 2013. Dolen i drawsgrifiad o'r araith: https://www.gov.uk/government/speeches/eu-speech-at-bloomberg

13 www.lchclearnet.com/asset-classes/otc-interest-rate-derivatives/volumes

14 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Regional Gross Value Added (Income Approach), 1997 to 2014', Rhagfyr 2015; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Blue Book, 2015

15 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

16 Roedd gwasanaethau ariannol ac yswiriant wedi cynhyrchu gwarged masnach o £58 biliwn yn 2014 (ar sail ffigurau'r Pink Book 2015, yn cynnwys gwasanaethau yswiriant a phensiwn, yn ogystal â gwasanaethau ariannol).

cadarnhau y bydd y sector gwasanaethau ariannol yn gallu ffynnu wrth i Ardal yr Ewro barhau i integreiddio.

## Bydd y cyfrifoldeb dros oruchwylio sefydlogrwydd ariannol y DU yn aros yn nwylo Banc Lloegr ac awdurdodau eraill yn y DU

2.21 Yn union fel y mae cynnal sector gwasanaethau ariannol cryf yn hybu twf economaidd drwy sianelu arian i'r lle y mae ei angen fwyaf, felly hefyd y mae'n hanfodol cadw sefydlogrwydd ariannol er mwyn ein diogelwch ariannol. Fel y dangoswyd mewn blynyddoedd diweddar, mae gallu llywodraethau ac awdurdodau eraill i ymateb i argyfwng ac adfer sefydlogrwydd mewn marchnadoedd ariannol yn hanfodol i ddiogelu swyddi a busnesau ar draws y DU.

2.22 Fel yr eglurwyd uchod, mae sector gwasanaethau ariannol y DU yn cael mantais fawr o weithredu o fewn marchnad ariannol sengl ar draws yr UE sy'n cael ei diogelu gan reolau i'r UE cyfan ar sefydlogrwydd ariannol sy'n seiliedig ar safonau rhyngwladol. Mae'r DU wedi chwarae rhan allweddol mewn llunio'r rheolau hyn. Er enghraifft, roedd rheolau'r UE ar reoli banciau sy'n methu wedi'u seilio'n helaeth ar ddeddfwriaeth y DU, yn enwedig Deddf Bancio 2009. Bydd y setliad newydd yn sicrhau bod rheolau'r UE ar wasanaethau ariannol yn gweithio i'r holl Aelod-wladwriaethau, pa un a ydynt yn aelodau o Ardal yr Ewrop neu beidio.

2.23 Fodd bynnag, yn ogystal â'r rheolau cyffredin hyn, mae'n bosibl y bydd angen sefydliadau a threfniadau ariannu cyffredin ar gyfer Ardal yr Ewro er mwyn cynnal sefydlogrwydd ariannol, oherwydd y cysylltiadau agosach rhwng ei systemau ariannol. Mae nifer o'r trefniadau hyn i Ardal yr Ewro yn ddiangen ar gyfer rhedeg Marchnad Sengl.

2.24 Felly, yn ogystal â chryfhau integredd y Farchnad Sengl, mae ein setliad newydd hefyd yn cydnabod y gwahaniaeth yn yr anghenion sydd gan wledydd sydd y tu mewn a'r tu allan i'r ewro.

2.25 Yn gyntaf, drwy hyblygrwydd yn y rheolau. Mae'r cytundeb yn cydnabod ei bod yn bosibl mewn rhai achosion y bydd angen rheolau mwy unffurf i Ardal yr Ewro ar sefydlogrwydd ariannol ar gyfer yr arian sengl ac ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu o fewn Ardal yr Ewro, ar ben yr hyn sy'n briodol ar gyfer y Farchnad Sengl. Yn yr achosion hyn, mae'n bwysig na fydd yr unffurfrwydd sydd ei angen ar gyfer Ardal yr Ewro yn cael ei ymestyn i gynnwys y DU, lle gallai gyfyngu ar allu ein hawdurdodau i ddelio â'r risgiau penodol yr ydym yn eu hwynebu. Er mwyn delio â hyn, mae'r Llywodraeth wedi sicrhau cydnabyddiaeth o'r angen posibl am reolau i Ardal yr Ewrop sy'n fwy unffurf nag unrhyw reolau cyfatebol sy'n cael eu cymhwyso yn y DU. Mae hyn yn bwysig er mwyn diogelu buddiannau economaidd cenedlaethol y DU a diogelu sofraniaeth y DU.

2.26 Yn ail, drwy arolygu'r rheolau. Mae'r cytundeb yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am fonitro a gorfodi'r rheolau hynny a goruchwylio sefydlogrwydd ariannol y DU a'n marchnadoedd a sefydliadau ariannol yn aros gyda Banc Lloegr ac awdurdodau eraill yn y DU sy'n atebol i Senedd y DU. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DU yn aros yn llwyr gyfrifol am benderfyniadau ynghylch defnyddio arian trethdalwyr y DU i ddiogelu sefydlogrwydd ariannol. Mae hyn yn adeiladu ar sail y diwygiadau a gafwyd mewn blynyddoedd diweddar i ymateb i'r argyfwng ariannol ac mae'n amddiffyniad newydd pwysig i bwerau awdurdodau'r DU. Mae hyn yn hollbwysig os yw'r DU i gadw ei sefydlogrwydd economaidd ac ariannol a sicrhau atebolrwydd priodol i'r Senedd am arian trethdalwyr y DU, gan barhau i elwa o gymryd rhan yn y Farchnad Sengl ac o fwy o sefydlogrwydd yn Ardal yr Ewro.

## Ni fydd trethdalwyr y DU byth yn gorfod talu am fesurau i ddiogelu Ardal yr Ewro

2.27 Mae'r egwyddor hon yn cydnabod na fydd trethdalwyr y DU byth yn atebol, os ceir argyfwng, am gynnal sefydlogrwydd ariannol Ardal yr Ewro a'i haelodau, er enghraifft, drwy gyfrannu arian i'w chynnal. Mae hyn yn adeiladu ar sail y cytundeb a wnaeth y Llywodraeth ag Aelod-wladwriaethau eraill yn haf 2015 na ddylai'r DU fod yn atebol am unrhyw gyfran o fenthyciadau'r UE i Wlad Groeg.

2.28 Drwy ymgorffori'r egwyddor hon yn y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol, sicrheir y bydd hyn yn gymwys i'r holl gymorth ariannol brys y mae'r UE yn ei roi yn y dyfodol. Hefyd bydd y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill nad ydynt yn defnyddio'r ewro yn cael eu had-dalu'n llawn os byth y defnyddir cyllideb yr UE i gynnal sefydlogrwydd ariannol Ardal yr Ewro mewn argyfwng.

## Bydd yr holl drafodaethau am faterion sy'n effeithio ar holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn cynnwys holl Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys y DU

2.29 Un o'r egwyddorion sylfaenol yng ngweithrediad yr UE yw bod materion sy'n effeithio ar yr holl Aelod-wladwriaethau i gael eu trafod gan yr holl Aelod-wladwriaethau. Mae'n briodol bod gwledydd yn Ardal yr Ewro yn gallu trafod materion sy'n ymwneud yn llwyr â'u buddiannau eu hunain. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac ymddiriedaeth yn yr UE, mae'n hanfodol wrth drafod materion o'r fath na fyddant yn ymyrryd â buddiannau Aelod-wladwriaethau sydd y tu allan i Ardal yr Ewro.

2.30 Mae'r egwyddor y cytunwyd arni yn y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn cadarnhau y bydd y DU yn parhau i gael llais cyfartal yn yr UE. Ac er y bydd Ardal yr Ewro yn parhau i drafod materion sy'n ymwneud yn benodol â'r ewro, os bydd cwestiwn yn codi sy'n effeithio ar y DU, yna bydd y DU yn rhan o'r drafodaeth. Mae hyn yn golygu bod cyfarfodydd anffurfiol o weinidogion Ardal yr Ewro yn gorfod parchu rôl Cyngor y Gweinidogion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau. Mae hefyd yn cadarnhau y gall yr holl Aelod-wladwriaethau gymryd rhan mewn trafodaethau yn y Cyngor, hyd yn oed os nad oes hawl i bleidleisio gan bob aelod (er enghraifft, os yw'r drafodaeth yn ymwneud â mesurau i wledydd Ardal yr Ewro yn unig).

## Mecanwaith diogelu

2.31 Mae'r setliad newydd hefyd yn cynnwys mecanwaith diogelu newydd. Os bydd y DU yn credu nad yw'r egwyddorion yn cael eu parchu, gallwn weithredu'n unochrog drwy godi pryderon y DU gyda'r Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth yn y Cyngor Ewropeaidd.

2.32 Yn ogystal â hyn, mae'r egwyddorion a ddisgrifiwyd uchod yn rhwymol ac ni ellir eu dad-wneud. Byddai'n rhaid i Lys Cyfiawnder Ewrop eu hystyried wrth ddehongli'r Cytuniadau a gellid gofyn iddo orfodi dyletswydd Aelod-wladwriaethau i gydymffurfio â nhw. Rydym hefyd wedi sicrhau ymrwymiad y byddant yn cael eu hymgorffori yng Nghytuniadau'r UE y tro nesaf iddynt gael eu hadolygu.[17]

2.33 Mae'r cytundeb hwn yn agor y ffordd ymlaen i'r DU yn ei chysylltiadau ag Ardal yr Ewro. Mae'n cynnwys set gynhwysfawr o ddiwygiadau sy'n gwneud yr UE yn fwy hyblyg, yn fwy agored ac yn fwy tryloyw. Bydd yn hwyluso diwygio cadarnhaol yn Ardal yr Ewro gan

[17] Mae hyn wedi'i drafod yn fwy manwl yn rhan E.

ddiogelu hawl y DU i ddefnyddio'r bunt a rhan y DU mewn penderfynu rheolau'r Farchnad Sengl. A bydd yn helpu i roi eglurder a sefydlogrwydd i fusnesau'r DU a buddsoddwyr yn y DU, gan ategu cynllun economaidd y Llywodraeth.

## B. Cystadleurwydd

2.34 **Mae ein setliad newydd yn cadarnhau:**

- y bydd y baich rheoliadol ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach, yn cael ei leihau ac y bydd targedau penodol yn cael eu gosod mewn sectorau allweddol yn unol â'r dull a fabwysiadwyd yn y DU;
- y bydd pwyslais newydd ar ymestyn y Farchnad Sengl ymhellach i helpu i ddileu'r rhwystrau i fasnach sy'n parhau o fewn yr UE, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel gwasanaethau, ynni a digidol;
- y bydd yr UE yn ymrwymo o'r newydd i geisio gwneud cytundebau masnach rydd ag economïau mwyaf dynamig y byd, fel y bydd y rhwystrau ar ffurf tariffau a rheoleiddio y mae cwmnïau'r DU yn eu hwynebu mewn marchnadoedd mawr a datblygol y tu allan i'r UE yn cael eu lleihau neu eu dileu.

2.35 Ers lansio Marchnad Sengl yr UE, mae wedi sicrhau manteision gwirioneddol i Ewrop ac i'r DU. Mae wedi ychwanegu mwy na £200 biliwn y flwyddyn[18] i economi'r UE ym mhrisiau heddiw ac wedi creu cyfleoedd i bobl Prydain, er enghraifft, drwy wneud teithio'n fwy hwylus drwy ostwng prisiau hedfan ac adfywio'r diwydiant ceir yn y DU.

2.36 Yn y cytundeb a gawsom, mae'r Comisiwn Ewropeaidd a'r holl Aelod-wladwriaethau wedi ymrwymo i ddiwygiadau sy'n gyson â'r weledigaeth sydd gan y DU ac eraill ar gyfer Ewrop sy'n fwy cystadleuol ar lefel fyd-eang. Fel y mae Datganiad y Cyngor Ewropeaidd yn nodi, mae'r UE yn cydnabod bod angen gweithredu er mwyn 'promote a climate of entrepreneurship and job creation, invest and equip our economies for the future, facilitate international trade, and make the Union a more attractive partner.'

2.37 Mae'r pwyslais o'r newydd ar well rheoleiddio, y Farchnad Sengl a masnach yn golygu na fu erioed mwy o gysondeb rhwng agenda'r DU ar gyfer diwygio economaidd yn Ewrop ac agenda'r Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau eraill. Mae hyn yn hollol wahanol i'r sefyllfa ar ddechrau'r 1980au, pan oedd y DU yn wynebu'r her o ddarbwyllo Aelod-wladwriaethau eraill i fynd ymhellach na dileu rhwystrau tollfeydd a chwalu'r rhwystrau rheoliadol cenedlaethol a oedd yn achosi'r gwir gyfyngiadau ar fasnach o fewn Ewrop. Mae hyn yn newid pwysig iawn sy'n rhoi'r UE ar ben ffordd ar gyfer diwygio economaidd hirdymor, yn unol â chynllun economaidd hirdymor y DU ei hun.

2.38 Cofnodwyd ymrwymiadau Aelod-wladwriaethau'r UE yn Adran B o'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol ac maent wedi'u hategu gan Ddatganiad y Cyngor Ewropeaidd ar Gystadleurwydd a Datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar fecanwaith gweithredu Sybsidiaredd a mecanwaith gweithredu i leihau beichiau.

---

18 Dadansoddiad BIS wedi'i seilio ar ffynhonnell wreiddiol mewn ewros; Y Comisiwn Ewropeaidd, 2012 'Twenty Years of the European Single Market: Together for New Growth: Main Achievements'. Ar gael yn http://ec.europa.eu/internal_market/publications/docs/20years/achievements-web_en.pdf

## Lleihau'r baich ar fusnesau

2.39 O dan ein setliad newydd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno am y tro cyntaf i osod targedau penodol i leihau'r baich cyffredinol ar fusnesau mewn sectorau allweddol. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn canolbwyntio'n benodol ar dorri costau ar gyfer busnesau bach yn gyffredinol. Bydd hyn yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar fusnesau yn y DU.

2.40 Mae'r Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau'r UE wedi cytuno nawr fod angen iddynt fynd ymhellach ar leihau costau rheoliadol i fusnesau. Mae Datganiad y Cyngor Ewropeaidd ar Gystadleurwydd yn ei rwymo i 'doing more to reduce the overall burden of EU regulation, especially on SMEs and micro enterprises'. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gosod targedau penodol i'r UE i wneud hynny yn y meysydd mwyaf beichus i fusnesau.

2.41 Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno i gyflwyno mecanwaith newydd i adolygu beichiau. Bydd yn cynnal arolwg blynyddol o'r beichiau sy'n cael eu gosod ar fusnesau ar lefel yr UE. Bydd y broses hon yn pennu deddfwriaeth i'w hadolygu neu ei diddymu er mwyn lleihau costau, a bydd hyn yn golygu bod cyfyngu ar gostau rheoleiddio'n flaenoriaeth wrth ddatblygu, negodi a chytuno ar gynigion.

2.42 Bydd gweinidogion o bob un o'r Aelod-wladwriaethau'n dal sefydliadau'r UE yn atebol, gan oruchwylio'r broses o gytuno a gweithredu'r targedau ar gyfer lleihau beichiau. Mae hyn yn newid mawr yn null gweithredu'r UE ac mae'n ben draw i broses diwygio sydd wedi'i sbarduno gan y DU..

2.43 Mae'r DU wedi dadlau'n hir dros feithrin diwylliant sydd o blaid twf a busnesau bach yn yr UE. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei araith ar Ewrop yn Bloomberg dair blynedd yn ôl, rydym wedi ceisio sicrhau 'leaner, less bureaucratic Union'. Gan weithio dros gyfnod o flynyddoedd, ac yn enwedig ers lansio Tasglu Busnes y Prif Weinidog yn Hydref 2013, mae'r DU wedi gwneud cynnydd gwirioneddol, gan arwain at bwyslais mwy pendant gan yr UE ar leihau costau i fusnesau a rheoleiddio pan fo angen yn unig.[19]

2.44 I gyd-fynd â hyn, er 2014 mae'r Comisiwn Ewropeaidd newydd wedi diwygio ei ddull o reoleiddio, gan leihau nifer y mentrau newydd a gynigiwyd yn ei raglenni gwaith blynyddol o fwy nag 80 y cant.[20] Mewn ystod eang o feysydd polisi, o waredu gwastraff i gynhyrchu cemegion a chyfrifyddu, mae deddfwriaeth yr UE wedi'i hadolygu'n ddiweddar i ddileu gofynion diangen. Mae ein setliad newydd yn ychwanegu at y camau hyn ac mae busnesau'r DU, gan gynnwys y rhai lleiaf, yn elwa o hyn yn barod.

2.45 Mae'r newid yn y dull o weithredu'n cael ei roi ar sail fwy cadarn drwy sefydliadau hefyd. Mewn ymateb i alwadau gan y DU, sefydlwyd Bwrdd Craffu Rheoliadol newydd ym mis Gorffennaf 2015. Bydd y Bwrdd yn gofalu bod asesiadau'r Comisiwn Ewropeaidd o effaith cynigion am ddeddfwriaeth newydd yn y byd go-iawn yn cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn, er mwyn sicrhau na fydd y gost i fusnesau'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol. Bydd hanner aelodau'r Bwrdd yn cael eu recriwtio o'r tu allan i'r Comisiwn Ewropeaidd – y tro cyntaf i arbenigedd annibynnol gael ei ddefnyddio i graffu ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoliadau newydd yn yr UE.

---

19 Daeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Ddiwygiedig i rym ar 1 Ionawr 2015; daeth y fersiwn ddiwygiedig o'r Rheoliad Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau i rym ar 22 Mawrth 2013; a daeth y Gyfarwyddeb Cyfrifyddu Ddiwygiedig i rym ar 6 Ebrill 2015.

20 Mae Adroddiad Tasglu Busnes y Prif Weinidog a gyhoeddwyd yn Hydref 2013 ar gael yma: www.gov.uk/publications/cut-eu-red-tape-report-from-the-business-taskforce
Mae rhaglenni gwaith y Comisiwn Ewropeaidd ar gael yma: ec.europa.eu/atwork/key-documents

2.46 O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaeth y Comisiwn Ewropeaidd y llynedd, rhaid ymgynghori nawr â busnesau a'r cyhoedd ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd cyn eu gosod ar gyfer negodi, ac mae'r Comisiwn wedi datblygu profion newydd i sicrhau bod deddfwriaeth yn hyrwyddo cystadleurwydd yn Ewrop. Mae'r rhain yn cynnwys:

- profi bod cyfreithiau newydd yn cwrdd ag anghenion busnesau bach a newydd. Lle bynnag y bo modd, bydd systemau llai beichus ar gyfer busnesau bach, a bydd busnesau micro – sef 95 y cant o'r holl fusnesau yn y DU[21] – wedi'u hesemptio'n llwyr rhag gofynion;
- gofalu bod rheoliadau newydd yn hyrwyddo Ewrop sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn asesu a yw rheoliadau newydd yn fanteisiol neu'n anfanteisiol i fusnesau Ewrop wrth gystadlu ar lefel fyd-eang, gan edrych ar ffactorau fel y gost o fasnachu, cynhyrchiant, masnach ryngwladol, a llifau buddsoddi;
- herio er mwyn canfod a yw rheoliadau newydd yn hybu arloesedd. Rhaid i reoliadau fod yn ddigon hyblyg i gwrdd â gofynion yr economi fodern a thechnoleg newydd.

2.47 Mae hyn yn cynnig y posibilrwydd o ryddhau busnesau bach y DU o faich rheoleiddio diangen, gan eu helpu i wireddu eu potensial ar gyfer entrepreneuriaeth a thwf, a'u galluogi i fanteisio ar gyfleoedd i allforio drwy'r Farchnad Sengl.

## Cryfhau'r Farchnad Sengl

2.48 Mae ein setliad newydd wedi sicrhau ymrwymiad clir i roi'r Farchnad Sengl ar waith yn llawn a'i chryfhau, ac mae hyn yn 'essential objective' i'r UE. Bydd pwyslais penodol ar fanteisio i'r eithaf ar botensial y Farchnad Sengl, a hybu cystadleurwydd rhyngwladol Ewrop mewn meysydd allweddol sy'n bwysig i economi'r DU, fel ynni a digidoll.

2.49 Roedd y DU ar y blaen wrth lansio'r Farchnad Sengl 30 mlynedd yn ôl. Fel y dywedodd Margaret Thatcher ym 1988:

> *Just think for a moment what a prospect that is. A Single Market without barriers—visible or invisible—giving you direct and unhindered access to the purchasing power of over 300 million [now 500 million] of the world's wealthiest and most prosperous people. Bigger than Japan. Bigger than the United States. … [And] Britain has given the lead.*[22]

2.50 Ers blynyddoedd lawer, y Farchnad Sengl sydd wedi sbarduno twf yn yr UE. Mae masnachu ar draws Ewrop yn creu economi sy'n fwy cystadleuol, arloesol a hyblyg. O ganlyniad i hyn ceir mwy o effeithlonrwydd, prisiau is a mwy o ddewis i ddefnyddwyr a busnesau. Mae aelodaeth o'r Farchnad Sengl wedi dod yn fwy pwysig gan fod tuedd gynyddol i brosesau gweithgynhyrchu ddigwydd mewn mwy nag un wlad. Bydd cwmnïau sy'n gweithgynhyrchu yn y DU fel Rolls-Royce ccc a BMW yn cael cydrannau o ffynonellau ar draws Ewrop i greu'r cynnyrch terfynol.

2.51 Er bod allforion i economïau datblygol mwyaf y byd, fel India a Tsieina, ar gynnydd, mae'r Farchnad Sengl yn parhau'n hollbwysig i iechyd yr economi yn y DU: mae 44 y cant o'r nwyddau a gwasanaethau a allforir gan y DU yn mynd i'r UE o'i gymharu 5 y cant i India a Tsieina.[23] Mae allforwyr y DU yn dibynnu'n fwy ar fewnbynnau o'r tu mewn i'r UE nag o unman

---

21 BIS Business Population Estimates 2015.

22 Thatcher, Margaret, Ebrill 1988. Araith agoriadol ymgyrch "Europe Open for Business". Lancaster House: Llundain.

23 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

arall: daw 9 y cant o'r gwerth ychwanegol yn allforion y DU o fewnbynnau y tu mewn i'r UE, o'i gymharu â 2.7 y cant o UDA a dim ond 1.3 y cant o Tsieina.[24]

2.52 Ond gan fod patrwm economi'r byd yn newid, nid oes lle i ddifaterwch. Mae'r cytundeb yn ei gwneud yn glir bod holl Aelod-wladwriaethau'r UE wedi ymrwymo i ddiwygio, ac mae Datganiad y Cyngor Ewropeaidd yn dweud 'Europe must boost its international competitiveness across the board in services and products and in key areas such as energy and the digital single market'

2.53 Heddiw mae'r DU yn parhau i yrru prosiect y Farchnad Sengl yn ei flaen er mwyn ei gwblhau. Mewn ymateb i ddylanwad y DU a'n cynghreiriaid yn bennaf, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cychwyn ar gyfres o ddiwygiadau economaidd sydd â'r amcan o gynyddu cynhyrchiant economïau Ewrop, gan baratoi busnesau Ewrop ar gyfer byd sy'n fwy cystadleuol nag yr oedd ym 1973 pan ymunodd y DU â'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd.

2.54 Ym Mai 2015, lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd ei raglen ddiwygio economaidd newydd gyda'i strategaeth ar gyfer cwblhau'r Farchnad Sengl Ddigidol. Ym mis Medi, cyflwynodd becyn o fesurau i greu Undeb Marchnadoedd Cyfalaf go iawn, wedi'i arloesi gan Gomisiynydd Ewropeaidd y DU, yr Arglwydd Hill, i'w gwneud yn haws i fusnesau, a busnesau bach a chanolig yn enwedig, gael gafael ar gyllid ar gyfer buddsoddi. Yn Hydref 2015, cyhoeddodd ei Strategaeth Fasnach gynhwysfawr, gan edrych ymlaen at wneud cytundebau masnach rydd ag Awstralia, Seland Newydd, Unol Daleithiau America, a gwledydd Asia a'r Môr Tawel ac America Ladin, ac ar wahân i hynny ei weledigaeth ar gyfer dyfnhau'r Farchnad Sengl, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau. Yn fwyaf diweddar, ym mis Tachwedd 2015 lansiwyd adroddiad cyntaf y Comisiwn Ewropeaidd ar Gyflwr yr Undeb Ynni mewn perthynas â diwygio'r farchnad ynni.

2.55 Mae'r mentrau hyn yn ateb galwadau sydd wedi'u gwneud ers amser maith gan y DU ac eraill am fwy o ryddfrydoli ym marchnad yr UE ar gyfer gwasanaethau. Mae strategaeth Marchnad Sengl y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2015 yn canolbwyntio ar ryddfrydoli mewn meysydd lle mae economi'r DU yn gystadleuol iawn, gan gynnwys gwasanaethau busnes proffesiynol fel peirianneg a chyfrifyddu. Mae'r DU yn gryf eisoes yn ei masnachu mewn gwasanaethau â gweddill yr UE, a chafodd warged masnach o £17 biliwn yn 2014.[25] Pe byddai holl farchnadoedd gwasanaethau cenedlaethol yr UE mor agored â'r 5 marchnad Ewropeaidd sy'n perfformio orau (o ran cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau), byddai hyn yn ychwanegu 1.8 y cant at CMC yr UE, gan gynnwys twf o 2 y cant i'r DU.[26]

2.56 Fel un o brif ddarparwyr a defnyddwyr e-fasnach yn Ewrop, byddai'r DU yn cael budd mawr o Farchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau digidol. Roedd y cytundeb a gafwyd y llynedd i roi terfyn ar godi tâl am drawsrwydweithio wrth ddefnyddio ffonau symudol yn fuddugoliaeth a gafwyd o dan arweiniad y DU a allai arbed tua £350 miliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr y DU, a rhagwelir y bydd arbedion o £1.4 biliwn os bydd twristiaid yn dechrau defnyddio eu ffôn wrth deithio yn y Farchnad Sengl cymaint ag y maent gartref[27]. Bydd cynigion eraill ar gyfer defnyddwyr yn dilyn gan gynnwys, er enghraifft, caniatáu i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau

24 Cronfa ddata Masnach mewn Gwerth Ychwanegol yr OECD.

25 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

26 Y Comisiwn Ewropeaidd, 2012. 'The Economic Impact of the Services Directive: A first assessment following implementation'. Mae'r ffigur hwn yn mesur y potensial ar gyfer twf o ganlyniad i weithredu Cyfarwyddeb Gwasanaethau 2006 yn well. Hon yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli'r farchnad sengl ar gyfer gwasanaethau. Rhagwelir y bydd ymyriadau drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn sicrhau buddion ychwanegol.

27 Dadansoddiad mewnol gan y Llywodraeth ar sail ffigurau'r diwydiant ar gyfer 2016

tanysgrifio ar-lein ar gyfer cerddoriaeth, ffilm a theledu yng ngwledydd eraill yr UE heb iddynt gael eu blocio. Drwy osod rheolau symlach ar gyfer talu TAW a chyflwyno systemau mwy cyson ar gyfer diogelu defnyddwyr, mae'r UE yn ei gwneud yn haws hefyd i fusnesau fanteisio ar gyfleoedd i fasnachu ar-lein ar draws ffiniau yn Ewrop. Byddai Marchnad Sengl Ddigidol lawn weithredol yn gallu bod yn werth cymaint â £330 biliwn y flwyddyn i economi'r UE.[28]

2.57 Yn dilyn yr argyfwng ariannol, galwodd y DU am fesurau brys i adfer llifau cyfalaf ar draws ffiniau i'w lefelau cyn yr argyfwng. Mae hyn yn hanfodol i helpu busnesau i gael gafael ar y buddsoddiadau sydd eu hangen arnynt i dyfu heb orfod dibynnu ar gyllid y banciau'n unig. Mewn ymateb i hyn, mae'r UE wedi ymrwymo i sefydlu Undeb Marchnadoedd Cyfalaf i greu mwy o fuddsoddi cyfalaf a chaniatáu i drefniadau ariannu groesi ffiniau'r Aelod-wladwriaethau'n ddirwystr. Mae'r cynnig cyntaf a lansiwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, ar ddull safonol o fwndelu a masnachu dyled, yn rhoi'r potensial i ryddhau benthyciadau ychwanegol o gymaint â £110 biliwn ar gyfer busnesaund trading debt, has the potential to unlock up to £110 billion in extra lending to businesses.[29]

2.58 Mae'r DU yn arwain hefyd ar gwblhau'r Farchnad Sengl ar gyfer ynni yn yr UE. Erbyn 2017, byddwn wedi cytuno ar becyn o fesurau a fydd yn caniatáu i ynni lifo'n rhydd rhwng un rhwydwaith ynni cenedlaethol ac un arall. Bydd gwaith wedi dechrau hefyd ar adeiladu'r seilwaith mawr sydd ei angen i gysylltu pob rhan o'r cyfandir. Mae'r DU wedi dadlau'n argyhoeddiadol bod ansefydlogrwydd yn Nwyrain Ewrop a'r Dwyrain Canol yn golygu bod angen i ni gryfhau diogelwch ynni yn Ewrop a lleihau codiadau sydyn mewn prisiau. Byddai 'undeb ynni' cyflawn mewn marchnadoedd nwy a thrydan yn gallu arbed £50 biliwn y flwyddyn ar draws yr UE erbyn 2030 a dylai arwain at brisiau ynni is i ddefnyddwyr.[30]

## Polisi masnach uchelgeisiol

2.59 Mae ein setliad newydd wedi sicrhau ymrwymiad pendant y bydd yr UE yn dilyn polisi masnach gweithredol ac uchelgeisiol gyda'r economïau mwyaf dynamig yn y byd, gan roi blaenoriaeth i UDA, Japan, a phartneriaid pwysig eraill yn rhanbarth Asia a'r Môr Tawel ac America Ladin.

2.60 Y DU yw un o'r gwledydd sydd wedi hyrwyddo masnach rydd yn fwyaf egnïol yn yr UE ac mae wedi bod yn flaenllaw mewn masnach fyd-eang ers cannoedd o flynyddoedd. Mae'r DU wedi helpu i sicrhau cytundebau masnach i'r UE yn ddiweddar, ac mae'r rhain wedi bod o fudd mawr i ni: er enghraifft, wedi i'r cytundeb rhwng yr UE a De Korea ddod i rym yn 2011, roedd allforion y DU i Dde Korea wedi dyblu mewn 3 blynedd.[31]

---

28 (Uned Gwerth Ychwanegol Ewrop, 2015. 'Mapping the Cost of Non-Europe, 2014-2019', Trydydd argraffiad. Adroddiad i Senedd Ewrop). Roedd budd y ffynhonnell wedi'i gyfrifo mewn ewros yn wreiddiol

29 Y Comisiwn Ewropeaidd, Medi 2015. 'Impact Assessment: laying down common rules on securitisation and creating a European framework for simple and transparent securitisation'. Dogfen Weithio Staff y Comisiwn. Brwsel. Ar gael yn http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:52015SC0185. Roedd budd y ffynhonnell wedi'i gyfrifo mewn ewros yn wreiddiol.

30 Booz and Company, 2013. 'Benefits of an Integrated European Energy Market'. Adroddiad i Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Ynni yn y Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/energy/sites/ener/files/documents/20130902_energy_integration_benefits.pdf Roedd budd y ffynhonnell wedi'i gyfrifo mewn ewros yn wreiddiol.

31 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

2.61 Mae'r UE eisoes yn brif bartner masnachu i 59 o wledydd, sy'n cynnwys mwy na hanner economi'r byd, tua dwywaith cyfran UDA, sy'n brif bartner masnachu i 24 o wledydd, sy'n cynnwys llai na chwarter economi'r byd.[32]

2.62 O ganlyniad i'r cytundeb yr ydym wedi'i sicrhau, bydd Aelod-wladwriaethau'r UE yn rhoi pob cefnogaeth i strategaeth fasnach ddiweddar y Comisiwn Ewropeaidd. Elfennau canolog yn y strategaeth hon yw cytundebau masnach uchelgeisiol a chynhwysfawr a fydd yn rhoi hwb sylweddol i dwf a diogelwch economaidd y DU. Byddant hefyd yn helpu i adeiladu economi fyd-eang agored sy'n parchu, yng ngeiriau Datganiad y Cyngor ar Gystadleurwydd, 'high standards of consumer, employee, health and environmental protection'. Drwy gwblhau'r cytundebau hyn, gan arfer dylanwad Marchnad Sengl yr UE a'i 500 miliwn o ddefnyddwyr, bydd y DU yn gallu elwa'n benodol o farchnadoedd mewn economïau sy'n tyfu'n gyflym. Ar hyn o bryd, mae'r DU yn allforio mwy i Iwerddon nag y mae'n ei wneud i Tsieina. Rydym yn allforio bron dwywaith yn fwy i Wlad Belg nag yr ydym i India. Rydym yn allforio bron tair gwaith yn fwy i Sweden nag yr ydym i Frasil.[33]

2.63 Ar ôl eu cwblhau, gallai'r holl gytundebau masnach sydd ar y gweill fod yn werth mwy na £20 biliwn y flwyddyn i CMC y DU yn y pen draw.[34] Mae'r rhain yn cynnwys prif flaenoriaeth y DU ar gyfer masnach: cytundeb rhwng yr UE ac UDA (y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig), a fyddai'n gallu ychwanegu £10 biliwn at CMC y DU ar ei ben ei hun. Bydd yn cynnig gwir fanteision i ddefnyddwyr y DU drwy roi mwy o ddewis, prisiau is, mwy o gyfleoedd o ran swyddi a chyflogau uwch.[35] Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi amcangyfrif y bydd yr aelwyd gyffredin bron £400 y flwyddyn ar ei hennill.[36]

2.64 Mae negodiadau eraill ar y gweill a fyddai hefyd yn rhoi hwb sylweddol i dwf yn y DU. Byddai'r cytundeb uchelgeisiol â Japan yn werth mwy na £5 biliwn y flwyddyn i economi'r DU yn y pen draw.[37] Mae'r UE hefyd yn negodi cytundeb buddsoddi dwyochrog â Tsieina, a allai arwain y ffordd at gytundeb masnach rydd. Mae negodiadau'n parhau â gwledydd ASEAN (Association of Southeast Asian Nations), a'r nod yn y pen draw yw gwneud cytundeb rhwng yr UE ac ASEAN. Rhagwelir y bydd negodiadau'n ailddechrau ar gytundeb â gwledydd MERCOSUR (Ariannin, Brasil, Paraguay, ac Uruguay) a allai fod yn werth £2.5 biliwn y flwyddyn i'r DU.[38]

---

32 Dadansoddiad BIS o ddata UNCTAD.

33 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

34 Amcangyfrif BIS, wedi'i seilio ar amcangyfrifon mewn astudiaethau o effaith cytundebau penodol, gan gynnwys astudiaeth CEPR o'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/198115/bis-13-869-economic-impact-on-uk-of-tranatlantic-trade-and-investment-partnership-between-eu-and-us.pdf

35 Dadansoddiad gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS), wedi'i seilio ar adroddiad gan y Centre for Economic Policy Research i BIS – Estimating the Economic Impact on the UK of a Transatlantic Trade and Investment Partnership (TTIP) Agreement between the European Union and the United States, March 2013 Report for the UK Department of Business, Innovation and Skills. London. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/198115/bis-13-869-economic-impact-on-uk-of-tranatlantic-trade-and-investment-partnership-between-eu-and-us.pdf

36 Centre for Economic Policy Research 2013 'Reducing Transatlantic Barriers to Trade and Investment: An Economic Assessment'. Adroddiad i'r Comisiwn Ewropeaidd. Roedd budd y ffynhonnell wedi'i gyfrifo mewn ewros yn wreiddiol.

37 Amcangyfrifon gan BIS wedi'u seilio ar Asesiad o Effaith y Comisiwn Ewropeaidd, Gorffennaf 2012. http://trade.ec.europa.eu/doclib/docs/2012/july/tradoc_149809.pdf

38 Amcangyfrifon gan BIS wedi'u seilio ar Asesiad o Effaith y Comisiwn Ewropeaidd, Rhagfyr 2011. http://ftp.jrc.es/EURdoc/Vol%201_MAIN%20RESULTS_JRC67394.pdf

2.65 Mae Strategaeth Fasnach y Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi blaenoriaeth hefyd i negodiadau â phartneriaid allweddol yn y Gymanwlad. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cytundeb terfynol â Chanada i'r Cyngor a Senedd Ewrop mor gynnar â phosibl eleni. Gallai'r cytundeb hwn fod yn werth £1.3 biliwn i'r DU bob blwyddyn yn y pen draw.[39] Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn barod i ailddechrau negodiadau ag India ac mae hefyd wedi ymrwymo i ddechrau'r broses ar gyfer cytundebau masnach ag Awstralia a Seland Newydd.

## C. Sofraniaeth

2.66 **Mae ein setliad newydd yn golygu:**

- ei bod wedi'i gydnabod yn ffurfiol am y tro cyntaf nad yw'r DU wedi ymrwymo i integreiddio gwleidyddol pellach yn yr UE ac rydym wedi sicrhau cadarnhad penodol na fydd y cysyniad o 'undeb agosach fyth' yn gymwys i'r DU yn y dyfodol. Mae hyn yn ategu'r ymrwymiad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd 2011, sy'n ei gwneud yn amhosibl i unrhyw Lywodraeth i'r DU drosglwyddo pŵer i'r UE yn y dyfodol heb gynnal refferendwm. Mae'r cytundeb yn cadarnhau nad yw Aelod-wladwriaethau'r UE yn gorfod anelu at gyrchfan gyffredin;
- y gall seneddau cenedlaethol ddod at ei gilydd i atal cynigion diangen ar gyfer deddfwriaeth i'r UE, lle na ddylai'r pŵer gael ei arfer ar lefel yr UE, gan roi llais cryfach i Senedd y DU;
- y bydd mecanwaith newydd yn cael ei greu i adolygu cyfreithiau presennol yr UE i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel genedlaethol lle bo modd ac ar lefel yr UE dim ond pan fo angen hynny (sybsidiaredd) ac mai dim ond y camau lleiaf sydd eu hangen a gymerir i gyflawni amcanion ar gyfer rheoleiddio (cymesuredd);
- ein bod wedi cael cadarnhad cyfreithiol mai Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am ein diogelwch gwladol;
- ar faterion fel plismona a pholisi mewnfudo a lloches, ei bod wedi'i danlinellu mai Llywodraeth a Senedd y DU fydd yn penderfynu a fyddwn yn cymryd rhan mewn camau gweithredu ar lefel Ewrop.

2.67 Mae'r angen i gadw sofraniaeth genedlaethol yn bryder cyffredin i nifer o Aelod-wladwriaethau, ond fe'i teimlir yn gryf iawn yn y DU. Mae'r setliad hwn yn cydnabod yn ffurfiol am y tro cyntaf nad yw'r DU wedi ymrwymo i integreiddio gwleidyddol pellach, mae'n cryfhau rôl y seneddau cenedlaethol, ac yn diogelu ein hawl i ddewis a fyddwn yn gweithredu ar lefel Ewropeaidd ar faterion pwysig fel plismona, cyfiawnder sifil a throseddol, mewnfudo a lloches. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn Adran C o'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol, mewn rhannau o Ddatganiad y Cyngor Ewropeaidd ar Gystadleurwydd, ac yn Natganiad y Comisiwn Ewropeaidd ar y mecanwaith gweithredu sybsidiaredd.

### Integreiddio gwleidyddol ac 'undeb agosach fyth'

2.68 Mae ein setliad newydd yn cadarnhau nad yw'r DU wedi ymrwymo i integreiddio gwleidyddol pellach yn yr UE ac na fydd y cysyniad o 'undeb agosach fyth' yn gymwys i'r DU yn y dyfodol.

39 Amcangyfrifon gan BIS wedi'u seilio ar y testun wedi'i gydgrynhoi, Medi 2014. http://trade.ec.europa.eu/doclib/docs/2014/september/tradoc_152806.pdf

2.69 Dywedodd y Prif Weinidog yn glir yn ei araith ar Ewrop ym mis Tachwedd 2015, 'ever closer union is not a commitment that should apply any longer to the UK. We do not believe in it. We do not subscribe to it. We have a different vision for Europe.'[40] Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn rhoi ein gweledigaeth wahanol ar gyfer Ewrop ar waith. Mae'n ei gwneud yn glir bod y cyfeiriadau yn y Cytuniad at 'ever closer union' yn "compatible with different paths of integration and do not compel all Member States to aim for a common destination". Mae hefyd yn ei gwneud yn glir bod yr UE wedi derbyn yn benodol nad yw'r DU yn dilyn llwybr at integreiddio gwleidyddol yn Ewrop. Mae'n cydnabod drwy gyfraith y gall y DU fod â gweledigaeth wahanol o'i dyfodol yn Ewrop.

2.70 Mae'n hollbwysig bod y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol hefyd yn nodi na ellir defnyddio 'undeb agosach fyth' i ehangu cwmpas cyfraith yr UE nac i ategu "extensive interpretation" o bwerau presennol yr UE. Mae'n ei gwneud yn glir bod "the competences conferred by the Member States on the Union can be modified (…) only through a revision of the Treaties with the agreement of all Member States" gan gadarnhau nad yw darpariaethau'r Cytuniad ar 'undeb agosach fyth' yn rhoi pwerau ychwanegol i'r UE. Mae hyn yn ei gwneud yn gwbl glir na ellir trosglwyddo rhagor o bwerau o'r DU i'r UE oni bai fod y DU yn cytuno ar hynny – a phe byddai hynny byth yn cael ei gynnig, mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd 2011 yn sicrhau y byddai pobl Prydain yn cael pleidleisio arno mewn refferendwm.

2.71 Yn olaf ac yn bwysig, mae'r UE yn cydnabod yn benodol nad yw'r DU wedi ymrwymo "to any further political integration into the European Union" ac yn cytuno y bydd y Cytuniadau'n cael eu diwygio yn y dyfodol "so as to make it clear that the references to ever closer union do not apply to the United Kingdom".

2.72 Mae hyn yn gam pwysig ymlaen. Mae'n rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol glir i statws y DU yn wlad sofran annibynnol sy'n rheoli ei thynged ei hun. Mae'r datganiad clir nad yw pob un o'i aelodau'n anelu at gyrchfan gyffredin yn gam pwysig tuag at greu'r UE newydd y mae'r DU am ei weld, a fydd yn fwy hyblyg ac wedi'i seilio ar gydweithrediad parod,. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei araith yn Bloomberg: "We must not be weighed down by an insistence on a one size fits all approach which implies that all countries want the same level of integration. The fact is that they don't and we shouldn't assert that they do."[41] Mae'r egwyddor hon wedi'i hymgorffori bellach yn y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol.

## Seneddau cenedlaethol

2.73 Mae ein setliad newydd yn cynnwys 'cerdyn coch' sy'n golygu y gall seneddau cenedlaethol ddod at ei gilydd i atal cynigion diangen ar gyfer deddfwriaeth i'r UE lle na ddylai pŵer gael ei arfer ar lefel yr UE.

2.74 Mae seneddau cenedlaethol yn ffynhonnell hanfodol i gyfreithlondeb democrataidd. Maent yn chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl at y dinesydd.

2.75 O dan y system bresennol o gardiau 'melyn' ac 'oren', mae barn seneddau cenedlaethol yn cael ei hystyried pan gynigir deddfwriaeth newydd i'r UE. Fodd bynnag, nid yw eu barn yn derfynol a gellir ei gwrthod. A chan mai dim ond 8 wythnos sy'n cael eu rhoi i fynegi barn am y cynnig, ac oherwydd y gwahaniaeth o ran amseroedd sesiynau'r seneddau

40 10 Tachwedd 2015. Dolen i'r trawsgrifiad yma. https://www.chathamhouse.org/event/future-britains-relationship-european-union#

41 23 Ionawr 2013. Dolen i drawsgrifiad o'r araith yma: https://www.gov.uk/government/speeches/eu-speech-at-bloomberg

cenedlaethol, mae wedi bod yn anodd cwrdd â'r terfyn amser hwn a chydweithio â seneddau cenedlaethol eraill. Ar hyn o bryd, hyd yn oed os bydd pob siambr seneddol genedlaethol yn gwrthwynebu deddfwriaeth arfaethedig, gellid parhau â'r cynnig heb ei newid i ymateb i'w gwrthwynebiad.

2.76 O dan y cytundeb y mae'r DU wedi'i sicrhau, gall seneddau cenedlaethol gydweithio i atal deddfwriaeth sydd wedi'i chynnig ar gyfer yr UE ar sail sybsidiaredd. Bydd siambrau seneddol mewn 16 o Aelod-wladwriaethau ar y lleiaf yn gallu atal cynnig (os yw'r siambrau hynny'n cynrychioli mwy na 55 y cant o'r pleidleisiau a ddyrannwyd i seneddau cenedlaethol), oni bai ei fod yn cael ei ddiwygio 'to accommodate the concerns expressed'. A bydd seneddau cenedlaethol yn cael 12 wythnos i gyflwyno cerdyn coch yn lle 8 wythnos o dan y system bresennol. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i seneddau cenedlaethol gydweithio.

2.77 Mae'r cerdyn coch newydd hwn yn cryfhau rôl Senedd y DU mewn ffordd ymarferol iawn. Mae'n gam ymlaen o ran delio â'r diffyg democrataidd hirsefydlog yn yr UE a mater i'r Senedd ei hun fydd penderfynu sut i fanteisio'n llawn ar y cyfle newydd hwn.

## Gwneud cyfreithiau ar y lefel genedlaethol lle bynnag y bo modd

2.78 Mae ein setliad newydd wedi sicrhau mecanwaith i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer adolygu deddfwriaeth yr UE bob blwyddyn i weld beth ellir ei wneud yn well ar lefel genedlaethol, a beth ellir ei hepgor yn gyfan gwbl.

2.79 Mae Cytuniadau presennol yr UE yn datgan mai egwyddor sybsidiaredd yw 'to ensure that decisions are taken as closely as possible to the citizen'. Ac eto, mae'r UE wedi ymyrryd yn aml mewn meysydd lle byddai llawer yn dadlau, beth bynnag oedd rhinweddau'r ddeddfwriaeth, nad oes angen cymryd camau ar gyfer yr UE gyfan. Er enghraifft, y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol (2002), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau lunio mapiau a chynlluniau rheoli ar lygredd sŵn; a llu o reolau iechyd a diogelwch.

2.80 Hyd yma, ni chafwyd mecanweithiau digon cryf i atal yr UE rhag pasio cyfreithiau y dylid eu gadael i wledydd unigol. Nid oedd mecanwaith ymarferol ar gael ar gyfer gostwng lefel y deddfu gan yr UE, fel y mae'r Ysgrifennydd Tramor a nifer mawr yn y wlad hon wedi'i argymell ers amser hir. Mae hyn yn arwain at reoleiddio ac ymyrryd diangen – un o'r cwynion mwyaf difrifol sydd gan ddinasyddion a busnesau Prydain mewn perthynas â'r UE.

2.81 O dan y setliad newydd yr ydym wedi'i sicrhau, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymrwymo i 'establish a mechanism to review the body of existing EU legislation for its compliance with the principle of subsidiarity and proportionality'. Mae hyn yn golygu bod mecanwaith ar gael i adolygu cyfreithiau presennol yr UE, fel y gellir gorfodi'r egwyddor mai dim ond pan fo gwir angen hynny y bydd yr UE yn gweithredu.

2.82 Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ewropeaidd lunio adroddiad penodol i'w drafod gan Gyngor y Gweinidogion bob blwyddyn. Lle bydd y Cyngor yn cytuno y byddai'n well deddfu ar lefel genedlaethol, neu fod yr UE wedi mynd yn bellach nag yr oedd angen, bydd y Cyngor yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd dynnu'n ôl neu ddiwygio'r ddeddfwriaeth dan sylw.

2.83 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno y bydd o dan ddyletswydd wrth bennu'r blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad hwn i ymgynghori â'r Cyngor, sy'n cynrychioli llywodraethau cenedlaethol, a seneddau cenedlaethol. Bydd y gofyniad hwn yn rhoi mecanwaith newydd i Senedd y DU i ofyn am newidiadau yng nghyfreithiau presennol yr UE.

2.84 Mae hyn yn newid pwysig yn null gweithredu'r UE: bydd yn rhoi'r gallu i ddod â phenderfyniadau'n ôl i'r DU, os yw hynny'n fwy priodol, fel mai dim ond pan fo gwir angen hynny y bydd pŵer yn cael ei arfer ar lefel Ewrop. Dyma rywbeth y mae llawer o seneddwyr y DU wedi galw amdano ers amser maith.

## Diogelwch gwladol

2.85 Mae ein setliad newydd yn cynnwys cadarnhad cyfreithiol mai Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am ddiogelwch gwladol y DU.

2.86 Mae Cytuniadau'r UE yn datgan yn glir mai'r Aelod-wladwriaethau sy'n llwyr gyfrifol am ddiogelwch gwladol. Mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf bod rhaid parchu hyn yn llawn, gan mai llywodraethau cenedlaethol sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddiogelwch eu dinasyddion.

2.87 Fodd bynnag, mae dyfarniadau diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop wedi codi amheuon am hyn. Mae'r DU yn cydweithredu'n agos â nifer o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE i sicrhau ein diogelwch gwladol. Lle bo cydweithredu'n angenrheidiol a phriodol, mae'r DU wedi arwain y ffordd drwy gefnogi camau gweithredu ar lefel yr UE, fel y cytundeb newydd ar brosesu data Cofnodion Enwau Teithwyr y cwmnïau hedfan sy'n rhoi'r gallu i adnabod a thracio rhai a all fod yn derfysgwyr. Yn ogystal â hyn, mae'r DU yn cydnabod y rhan sydd gan Lys Cyfiawnder Ewrop mewn amddiffyn hawliau holl wladolion yr UE, ond rhaid i'w ddyfarniadau barchu hawl Llywodraeth y DU i ofalu am ddiogelwch gwladol y DU.

2.88 Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn cadarnhau'n ddiamwys bod 'national security remains the sole responsibility of each Member State', y bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei barchu gan sefydliadau'r UE, sy'n cynnwys Llys Cyfiawnder Ewrop, ac na ddylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei ddehongli mewn ffordd gyfyng. Mae'r setliad hwn yn helpu i sicrhau y byddwn yn gallu arfer ein cyfrifoldeb sofran dros ddiogelwch gwladol heb ymyrraeth gan yr UE, gan gadw'r rhyddid i gydweithredu'n agos â'n cymheiriaid yn yr UE os yw'n briodol cymryd camau ar y cyd i ddelio â'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu.

## Rheolaeth dros Gyfiawnder a Materion Cartref

2.89 Ar faterion fel polisi ar blismona, mewnfudo a lloches, pwysleisiwyd mai Llywodraeth a Senedd y DU fydd yn penderfynu a fyddwn yn cymryd rhan mewn camau ar lefel Ewropeaiddt.

2.90 Ym 1997 cytunodd yr UE fod hawl gan y DU ac Iwerddon i ddewis a fyddwn yn cymryd rhan mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd i'r UE ynghylch mewnfudo, lloches a chyfraith sifil (hawl y DU i 'optio i mewn'). Estynnwyd hyn yn 2007 i gynnwys plismona a chyfiawnder troseddol. Roedd y DU wedi negodi'r amddiffyniad hwn rhag i'r DU gael ei rhwymo gan gyfraith yr UE yn y meysydd hyn, ond mewn ffordd a oedd yn rhoi hawl i ni optio i mewn i fesurau os byddai hynny er budd i'r DU.

2.91 Mae'r trefniant hwn wedi caniatáu i'r DU benderfynu drosti ei hun ynghylch sut i reoli ein ffiniau a diogelu ein systemau cyfiawnder unigryw. Mae'r DU wedi dewis optio i mewn i fesurau'r UE mwy na 90 o weithiau er 2009[42] lle'r oedd yn fanteisiol i ni wneud hynny, gan wneud y wlad hon a gwledydd eraill Ewrop yn fwy diogel, a hynny'n cynnwys mesurau i

[42] https://www.gov.uk/government/publications/jha-opt-in-and-schengen-opt-out-protocols--3

fynd i'r afael â seiberdroseddu,[43] ymladd yn erbyn camfanteisio rhywiol ar blant,[44] a dilyn symudiadau terfysgwyr a chyflawnwyr troseddau difrifol sy'n hedfan i mewn ac allan o'r DU.[45] Rydym wedi dewis peidio ag optio i mewn ar fwy na 40 o achlysuron yn ystod yr un cyfnod, yn ogystal ag optio allan o tua 100 o fesurau ar 1 Rhagfyr 2014 drwy drefniant i optio allan o flociau o fesurau o dan Brotocol 36 i'r Cytuniadau.

2.92 Dros amser, fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon wedi dod o dan bwysau. Yn benodol, rydym wedi gweld nifer o ymdrechion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i'r UE nad yw'n cydnabod yn briodol yr hawl sydd gan y DU i optio i mewn.

2.93 Er enghraifft, roedd cynnig ar gyfer atal twyll yn erbyn cyllideb yr UE wedi'i gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno sancsiynau troseddol newydd.[46] Roedd cynnig arall ar gyfer gwella sefydlogrwydd ariannol ar draws y Farchnad Sengl yn cynnwys gofyniad i gyrff gorfodi'r gyfraith gyfnewid gwybodaeth am ymchwiliadau i droseddu.[47] Roedd yn amlwg bod y ddau gynnig hyn yn ymwneud â Chyfiawnder a Materion Cartref, ond nid oeddent yn cydnabod hawl y DU i optio i mewn nac yn cyfeirio at sail gyfreithiol ym maes Cyfiawnder a Materion Cartref. Roedd hyn yn creu risg na fyddai hawl y DU i optio i mewn yn cael ei chydnabod a'i pharchu'n briodol gan eraill.

2.94 Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn ei gwneud yn glir bod rhaid cymhwyso hawl y DU i optio i mewn pryd bynnag y bydd yr UE yn cytuno ar ddeddfwriaeth ynghylch Cyfiawnder a Materion Cartref – gan gynnwys lle mae hyn yn gofyn am rannu'r mesur yn ddau, fel bod darpariaethau Cyfiawnder a Materion cartref wedi'u gwahanu oddi wrth weddill y mesur.

2.95 O ganlyniad i hyn, pryd bynnag y bydd yr UE yn cytuno ar ddeddfwriaeth newydd sy'n cynnwys darpariaethau Cyfiawnder a Materion Cartref, bydd y DU yn parhau i allu dewis a ydym am gymryd rhan neu beidio yn y materion hynny, a bydd yn rhaid i Aelod-wladwriaethau'r UE a sefydliadau'r UE barchu'r penderfyniad hwnnw.

## D. Y system lles a symud yn rhydd

2.96 **Mae ein setliad newydd:**

- yn galluogi'r DU i osod atalfa frys newydd i gyfyngu ar hawl gweithwyr o'r UE sydd newydd gyrraedd i gael yr holl fudd-daliadau ar gyfer rhai sydd mewn gwaith am hyd at 4 blynedd pan fyddant yn ymuno â'n marchnad lafur. Bydd hyn mewn grym am 7 mlynedd;
- yn cadarnhau na fydd y DU yn gorfod talu budd-daliadau diweithdra sy'n dibynnu ar brawf modd yn y dyfodol i wladolion o'r UE sy'n dod i chwilio am swyddi yn y DU;

43 Cyfarwyddeb 2013/40/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 12 Awst 2013 ar ymosodiadau ar systemau gwybodaeth a disodli Penderfyniad Fframwaith y Cyngor 2005/222/JHA.

44 Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 13 Rhagfyr 2011 ar ymladd yn erbyn cam-drin a chamfanteisio rhywiol ar blant a phornograffi plant, a disodli Penderfyniad Fframwaith y Cyngor 2004/68/JHA.

45 Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddefnyddio data Cofnodion Enwau Teithwyr i atal, darganfod ac erlyn troseddau terfysgol a throseddau difrifol.

46 Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y frwydr yn erbyn twyll sy'n groes i fuddiannau ariannol yr Undeb drwy gyfraith droseddol.

47 Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau strwythurol i wneud sefydliadau credyd yr UE yn fwy cydnerth.

- yn golygu na fydd Budd-dal Plant a delir i wladolion yr UE sy'n byw yma, ond sydd â'u plant yn byw y tu allan i'r DU, yn cael ei dalu ar gyfraddau'r DU o hyn ymlaen ond ar gyfradd sy'n adlewyrchu amodau – gan gynnwys y safon byw a'r Budd-dal Plant a delir – yn y wlad lle mae'r plant yn byw;
- yn ymrwymo i wneud deddfwriaeth newydd i atal ymfudwyr anghyfreithlon rhag defnyddio priodas ag un o wladolion yr UE sy'n byw yn y DU i osgoi ein rheolau domestig llym ar fewnfudo; a bydd yn golygu bod gwladolion o'r tu allan i'r UE sy'n priodi gwladolion yr UE sy'n byw yn y DU hefyd yn gorfod bodloni ein rheolau ar fewnfudo;
- yn sicrhau mwy o ryddid i'r DU i weithredu yn erbyn y bygythiad o droseddu gan wladolion yr UE sy'n symud o gwmpas yr UE drwy atal y rheini sy'n achosi bygythiad rhag dod i mewn i'r wlad a'i gwneud yn haws eu hallgludo os ydynt wedi bod yn byw yn y DU.

2.97 Gall mewnfudo ddod â manteision i'r DU. Ond rhaid ei leihau, ei arafu a'i reoli. Pan geir gormod o fewnfudo, mae'n rhoi pwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus a'n budd-daliadau, ac ar seilwaith a chydlyniant cymunedol. Dyma pam yr ydym wedi tynhau'r rheolau ar weithwyr, myfyrwyr ac aelodau teuluol o'r tu allan i'r UE, wedi cymryd camau yn erbyn gweithio anghyfreithlon a phriodasau ffug, ac wedi'i gwneud yn fwy anodd i fewnfudwyr anghyfreithlon aros yn y DU. Mae hyn wedi helpu i leihau mewnfudo o'r tu allan i'r UE, a byddwn yn parhau i gymryd camau i gryfhau ein ffiniau a gorfodi ein cyfreithiau llym ar fewnfudo. Rydym hefyd wedi tynhau'r rheolau ar gyfer y rheini sy'n dod o'r UE, ac wedi symud mwy o wladolion yr UE ymaith nag erioed o'r blaen. Nawr rydym wedi mynd i'r afael â phroblemau ar lefel yr UE drwy ailnegodi cyfraith yr UE mewn nifer o feysydd.

2.98 Mae'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cartref wedi dweud bod angen i ni allu cael mwy o reolaeth ar ymfudo o'r UE drwy ystyried yr atyniad sy'n codi o system budd-daliadau'r DU. Oherwydd nodweddion penodol y system lles yn y DU a rheolau presennol yr UE, mae un o wladolion yr UE nad yw wedi cyfrannu o'r blaen yn y DU yn gallu cymryd swydd yma ar gyflog isel a hawlio budd-daliadau hael yn syth ar yr un gyfradd â gwladolion y DU. Maent hefyd ar hyn o bryd yn gallu hawlio Budd-dal Plant ar gyfradd y DU ar gyfer plant sy'n byw mewn gwlad wahanol.

2.99 Bydd ein setliad newydd yn newid hyn: mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn cynnwys dau gynnig i newid cyfraith yr UE i gyfyngu ar hawl gweithwyr i dderbyn budd-daliadau, un yn ymwneud â'r gallu i allforio Budd-dal Plant ac un a fydd yn atal gweithwyr sydd newydd gyrraedd o wledydd eraill yr UE rhag manteisio'n llawn ar ein system lles am hyd at 4 blynedd (yr atalfa frys ar les). Mae Datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn cadarnhau bod y Comisiwn Ewropeaidd o'r farn y bydd y DU yn gallu defnyddio'r 'atalfa frys' hon ar unwaith, ar ôl gwneud y newidiadau sydd eu hangen yng nghyfraith yr UE a'r DU. Mae'r holl Aelod-wladwriaethau wedi cytuno i sicrhau y bydd hyn yn cael ei wneud yn gyflym ac fel mater o flaenoriaeth.

2.100 Mae'r Prif Weinidog wedi'i gwneud yn glir hefyd bod rhaid i ni gymryd camau yn erbyn camfanteisio ar reolau ar gyfer symud yn rhydd a throseddu gan unigolion sy'n symud o gwmpas yr UE. Mae'r cytundeb a gawsom yn egluro'r camau y gallwn eu cymryd i ddelio â chamfanteisio a bydd yn helpu i sicrhau na fydd unigolion yn gallu osgoi ein rheolaethau domestig ar fewnfudo. Bydd hefyd yn rhoi sail gyfreithiol gryfach i'r DU i'n helpu i atal gwladolion peryglus o'r UE rhag dod i'r DU ac yn ei gwneud yn haws eu hallgludo os ydynt wedi bod yn byw yn y DU.

## Budd-daliadau i rai mewn gwaith

2.101 **Mae ein setliad newydd yn cynnwys 'atalfa frys' i ganiatáu i'r DU gyfyngu ar hawl gwladolion yr UE sydd newydd gyrraedd i gael yr holl fudd-daliadau i rai mewn gwaith am hyd at bedair blynedd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau'n benodol bod y mewnlifiad eithriadol o weithwyr a welodd y DU dros y blynyddoedd diwethaf eisoes yn rhoi hawl i ni osod yr atalfa hon ar ôl gwneud y newidiadau sydd eu hangen mewn deddfwriaeth.**

2.102 Mae Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth wedi cytuno yn y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol fod systemau lles Aelod-wladwriaethau "are diversely structured and this may in itself attract workers to certain Member States". Mae'r Penderfyniad yn datgan hefyd "it is legitimate to take this situation into account and to provide… for measures limiting flows of workers of such a scale that they have negative effects both for the Member States of origin and for the Member States of destination".

2.103 Mae gwladolion yr UE yn derbyn budd-daliadau lles yn y DU. Mae ffigurau'r Llywodraeth yn dangos bod tua 40 y cant o ymfudwyr sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar o'r AEE yn byw ar aelwydydd sy'n cael cymorth gan y system budd-daliadau.[48] Ar gyfartaledd, mae teuluoedd sy'n cynnwys ymfudwr sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar o'r AEE yn hawlio credydau treth o bron £6,000 y flwyddyn ac, o'r rhain, mae tua 8,000 o deuluoedd yn cael mwy na £10,000.[49] O'r £25 biliwn a wariodd y DU yn 2013-2014 ar fudd-daliadau i rai mewn gwaith sydd ar incwm isel, aeth tua £2.5 biliwn i ymfudwyr o'r AEE.[50] Mae hyn yn cyfateb i 10 y cant o'r gwariant, er nad yw pobl o'r AEE ond tua 6 y cant o weithlu'r DU.[51]

2.104 Yn y cytundeb yr ydym wedi'i sicrhau, mae'r UE wedi cydnabod bod gwahanol systemau nawdd cymdeithasol ar draws yr Aelod-wladwriaethau yn gallu denu gweithwyr yr UE. Mae'r UE wedi cydnabod ei bod yn gyfreithlon cymryd mesurau lle mae mewnlifiad eithriadol o leoedd eraill yn yr UE yn achosi problemau difrifol i system lles , marchnad lafur neu wasanaethau cyhoeddus yr Aelod-wladwriaeth.

2.105 Nodwyd yn glir yn Natganiad y Comisiwn Ewropeaidd y bydd yn cynnig deddfwriaeth i sefydlu'r atalfa frys "with the understanding that it can and will be used and therefore will act as a solution to the United Kingdom's concerns about the exceptional inflow of workers from elsewhere in the EU". Mae'r setliad a gawsom yn rhwymo'r Aelod-wladwriaethau yn y Cyngor i weithio i fabwysiadu'r cynnig hwn yn gyflym.

2.106 Ar ôl gosod yr atalfa frys, ni fydd gwladolion yr UE sydd newydd gyrraedd yn y DU yn cael derbyn yr holl fudd-daliadau i rai mewn gwaith nes byddant wedi byw yma ac wedi cyfrannu i'n gwlad am hyd at bedair blynedd. Bydd yr atalfa'n para am saith mlynedd.

2.107 Ar lefel ddomestig, byddwn yn sicrhau newidiadau yn y dull o ddyrannu tai cymdeithasol. Mae ein canllawiau statudol presennol yn ei gwneud yn glir y dylai awdurdodau lleol yn Lloegr ei gwneud yn ofynnol bod rhywun wedi byw mewn ardal leol am o leiaf ddwy

48 Benefit Claims by EEA Nationals', datganiad ystadegol gan DWP (Tachwedd 2015).

49 *Tax Credit Statistics on EEA Nationals*, datganiad ystadegol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Chwefror 2016).

50 *Tax Credit Statistics on EEA Nationals*, datganiad ystadegol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Chwefror 2016) a *DWP benefit expenditure on EEA national-led claims 2013/14*, datganiad ystadegol gan DWP (Chwefror 2016)—yn dangos swm y gwariant ar Fudd-dal Tai i rai mewn gwaith ym Mhrydain Fawr a gwariant ar gredydau treth i deuluoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n gymwys i dderbyn Credydau Treth Gwaith.

51 *Population by Country of Birth and Nationality Report*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Awst 2015).

flynedd cyn ei ystyried ar gyfer tai cymdeithasol. Pwrpas hyn yw sicrhau bod digon o dai fforddiadwy ar gael i'r rheini ymysg y boblogaeth leol sydd ar incwm isel neu o dan anfantais arall ac a fyddai'n ei chael yn anodd iawn dod o hyd i gartref ar y farchnad agored.[52] Byddwn yn ymestyn y cyfnod hwn i 4 blynedd.

## Budd-dal diweithdra

2.108 Mae'r setliad newydd a gawsom yn cadarnhau na fydd y DU yn y dyfodol yn gorfod talu budd-daliadau diweithdra sy'n dibynnu ar brawf modd i wladolion yr UE sy'n dod yma i chwilio am waith.

2.109 Pan oedd y gwariant ar ei uchaf yn 2013-2014, rydym wedi amcangyfrif ein bod yn talu bron £700 miliwn y flwyddyn i wladolion di-waith o'r AEE a oedd yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-dal Tai yn unig.[53]

2.110 Ers dechrau 2014 mae'r DU wedi cyfyngu ar y budd-daliadau y mae ceiswyr swyddi o'r UE yn gallu eu hawlio ar ôl dod yma. Rydym wedi rhoi terfyn llwyr ar hawl ceiswyr swyddi o'r UE i dderbyn Budd-dal Tai y DU, ac wedi cyflwyno gofyniad am breswylio am dri mis cyn y gallant hawlio budd-daliadau eraill gan gynnwys Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Plant, a Chredyd Treth Plant. Ar ôl hynny, dim ond am 3 mis pellach y bydd ceiswyr swyddi o'r UE yn gallu hawlio'r budd-daliadau hynny, oni bai eu bod yn cael swydd neu'n gallu profi bod ganddynt wir obaith o gael swydd yn y dyfodol agos.

2.111 Mae Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Treth Plant yn cael eu dirwyn i ben yn raddol, ac mae'r Credyd Cynhwysol newydd yn cael ei gyflwyno ledled y DU. Mae'r cytundeb a gawsom yn cadarnhau na fydd y DU yn gorfod talu Credyd Cynhwysol i wladolion yr UE sydd yn y DU yn chwilio am waith. Mae hyn wedi'i seilio ar y ffaith bod cyfraith yr UE yn rhoi'r gallu i'w gwneud yn ofynnol i geiswyr swyddi o'r UE adael y wlad os na fyddant wedi cael swydd ar ôl chwe mis, ac os nad oes ganddynt wir obaith o gael swydd.

## Budd-dal Plant

2.112 O dan ein setliad newydd, bydd gwladolion yr UE sydd â'u plant yn byw mewn gwledydd tramor yn derbyn Budd-dal Plant yn y pen draw ar gyfradd sy'n adlewyrchu'r amodau – gan gynnwys y safon byw a'r budd-dal plant a delir – yn y wlad lle mae eu plant yn byw

2.113 Ar hyn o bryd, mae gwladolion yr UE sy'n gweithio yn y DU yn gallu hawlio Budd-dal Plant ar gyfraddau'r DU hyd yn oed os yw eu plant yn byw y tu allan i'r DU. Pwrpas Budd-dal Plant yw helpu â'r costau o fagu plentyn yn y DU. Mae'n amlwg bod anfon yr arian yn ôl i blant mewn gwledydd lle mae'r gost o fagu plentyn yn is o lawer yn camystumio bwriad y budd-dal hwn. Ym mis Mawrth 2015 roeddem yn talu 20,000 o hawliadau am Fudd-dal Plant ar gyfer 32,000 o blant sy'n byw mewn gwledydd tramor.[54]

2.114 O ganlyniad i'r cytundeb a gawsom, bydd newid yng nghyfraith yr UE "to give Member States, with regard to the exportation of child benefits to a Member State other than where the worker resides, an option to index such benefits to the conditions of the Member State

52 Statutory guidance on social housing allocations for local authorities in England, DCLG (Rhagfyr 2013).

53 *DWP benefit expenditure on EEA national-led claims 2013/14*, , datganiad ystadegol gan DWP (Chwefror 2016).

54 Hansard; Cwestiynau Ysgrifenedig, Tŷ'r Cyffredin, 10 Mehefin 2015, UIN 2064.

where the child resides". Bydd y newid hwn yn gymwys i hawliadau newydd gan weithwyr o'r UE ar ôl gwneud y newidiadau sydd eu hangen mewn deddfwriaeth. O 1 Ionawr 2020 bydd mynegrifo ar Fudd-dal Plant yn cael ei ymestyn i gynnwys hawliadau presennol.

2.115 Bydd hyn yn adfer tegwch yn y system drwy newid y swm o Fudd-dal Plant yr ydym yn ei dalu i adlewyrchu'r gost o fagu plentyn yn y wlad lle mae'r plentyn yn byw. Yn y cyfamser, mae Credyd Treth Plant yn cael ei ddirwyn i ben yn raddol, ac nid oes rhaid i ni dalu'r Credyd Cynhwysol newydd ar gyfer plant sy'n byw mewn gwledydd eraill. O ganlyniad i hyn, ar ôl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ym mhob man, yr unig fudd-dal y byddwn yn ei dalu ar gyfer plant sy'n byw mewn Aelod-wladwriaethau eraill fydd Budd-dal Plant ar gyfradd wedi'i mynegrifo.

## Camfanteisio ar yr hawl i symud yn rhydd

2.116 O dan ein setliad newydd, rydym wedi sicrhau ymrwymiad i wneud deddfwriaeth newydd i helpu i atal gwladolion o'r tu allan i'r UE rhag defnyddio cyfraith yr UE i efadu rheolaethau mewnfudo'r DU. Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau cytundeb hefyd ar y camau ychwanegol y gallwn eu cymryd i atal twyll a chamfanteisio ar yr hawl i symud yn rhydd.

2.117 Dyma'r pecyn cryfaf o fesurau a gawsom erioed i fynd i'r afael â chamfanteisio ar yr hawl i symud yn rhydd ac i gau llwybrau drwy'r drws cefn i'r DU.

2.118 Mae'r DU yn derbyn hawl gweithwyr i symud yn rhydd ar draws yr UE. Mae economi'r DU yn elwa o hyn ac mae'n caniatáu i wladolion y DU fyw a gweithio yn yr UE. Ond pan geir camfanteisio ar yr egwyddor hon neu os bydd yn arwain at driniaeth fwy ffafriol i wladolion o wledydd eraill yr UE nag i ddinasyddion y DU, mae'n amlwg bod hyn yn annheg ac yn lleihau hyder y cyhoedd yn ein gallu i reoli mewnfudo i'r DU.

2.119 Yn y cytundeb a gawsom, mae ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth newydd er mwyn gwneud newidiadau pwysig a fydd yn helpu i sicrhau na fydd modd wedyn i wladolion o'r tu allan i'r UE fanteisio ar gyfraith yr UE i osgoi ein rheolaethau mewnfudo. Mae Datganiad y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn glir y bydd yn cynnig is-ddeddfwriaeth newydd "in order to exclude, from the scope of free movement rights, third country nationals who had no prior lawful residence in a Member State before marrying a Union citizen or who marry a Union citizen only after the Union citizen has established residence in the host Member State". Mae hyn yn golygu, os yw gwladolion o'r tu allan i'r UE wedi bod yn byw yn anghyfreithlon yn y DU, na fyddant bellach yn gallu efadu ein rheolaethau mewnfudo drwy briodi un o wladolion yr UE. Yn ogystal â hyn, bydd gwladolion o'r tu allan i'r UE sydd wedi priodi gwladolion yr UE neu sy'n priodi gwladolion yr UE sydd eisoes yn byw mewn Aelod-wladwriaeth sydd wedi'u derbyn yn gorfod bodloni rheolau mewnfudo domestig y wlad gyntaf yn yr UE y maent yn preswylio ynddi. Yn y DU, mae hynny'n cynnwys prawf incwm a gofyniad iaith Saesneg.

2.120 Bydd y newidiadau hyn yn dileu'r cymhelliad i gymryd rhan mewn priodasau ffug ac yn golygu bod rhaid i'r holl wladolion o'r tu allan i'r UE gydymffurfio â rheolaethau mewnfudo'r Aelod-wladwriaeth gyntaf y maent yn dod iddi. Mae hyn yn delio â'r annhegwch yn y sefyllfa bresennol lle mae'n haws i un o wladolion yr UE ddod â phriod o'r tu allan i'r UE i'r DU nag ydyw i un o wladolion y DU.

2.121 Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn egluro'r camau y gallwn eu cymryd i ddelio â gwladolion o'r tu allan i'r UE sy'n ceisio efadu ein rheolaethau mewnfudo domestig drwy gynnal priodas yn dwyllodrus neu drwy breswylio gyda phriod o'r DU mewn Aelod-wladwriaeth arall am gyfnod byr cyn symud i'r DU (gan ddibynnu ar lwybr 'Surinder Singh')

er mwyn manteisio ar y rheolau ar yr hawl i symud yn rhydd. Mae'n cadarnhau bod "Member States are able to take action to prevent abuse of rights or fraud (…) and address cases of contracting or maintaining marriages of convenience with third country nationals for the purpose of making use of free movement as a route for regularising unlawful stay in a Member State or address cases of making use of free movement as a route for bypassing national immigration rules".

2.122 Bydd y DU hefyd yn cymryd camau pellach ar lefel ddomestig i greu gwaharddiadau cryfach a hirach rhag dychwelyd i'r rheini sy'n camfanteisio ar hawliau i symud yn rhydd, gan eu hymestyn o 12 mis i dair blynedd.

2.123 Mae'r pecyn yn rhwymo Aelod-wladwriaethau hefyd i sicrhau trefniadau gwell ar gyfer rhannu data a chydweithredu rhwng awdurdodau cenedlaethol er mwyn delio â chamfanteisio ar hawliau i symud yn rhydd. Bydd y rhain yn helpu i gyflawni'r pecyn newydd hwn o fesurau'n llwyddiannus.

### Atal troseddu

2.124 Mae'r setliad newydd a gawsom yn cryfhau'r mesurau y gallwn eu cymryd i warchod y cyhoedd rhag y rheini sy'n achosi bygythiad wrth symud o gwmpas yr UE.

2.125 Rhaid i ni allu gwarchod pobl Prydain rhag y rheini o wledydd eraill yr UE sy'n peri bygythiad ac sy'n camfanteisio ar eu hawl i symud o gwmpas yn rhydd. Ar hyn o bryd mae gormod o bwyslais ar ddiogelu hawliau gwladolion yng ngwledydd eraill yr UE i symud yn rhydd.

2.126 Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn ei gwneud yn glir y gall Llywodraeth y DU ystyried troseddu yn y gorffennol yn ogystal â gweithredu ar sail ataliol wrth benderfynu a yw unigolyn yn achosi bygythiad ar hyn o bryd. Nid oes rhaid i'r bygythiad fod ar fin digwydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ni wrthod derbyn unigolion i'r DU a'u hallgludo os ydym yn credu eu bod yn peri bygythiad i ddiogelwch yn y DU. Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn datgan "Member States may also take the necessary restrictive measures to protect themselves against individuals whose personal conduct is likely to represent a genuine and serious threat to public policy or security". Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi ymrwymo i egluro ar ba sail y gellir allgludo unigolion sydd wedi byw yn y DU am bum mlynedd neu fwy.

2.127 Yn olaf, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi egluro y bydd Aelod-wladwriaethau'n cydweithio i wella'r trefniadau ar gyfer rhannu data ar droseddwyr yn yr UE . Bydd hyn yn gam hollbwysig i'n helpu i gyflawni ein setliad newydd yn effeithiol, drwy ehangu'r trefniadau presennol sy'n sicrhau ein bod yn gallu rhannu data o gofnodion troseddol ar unigolion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a throseddu difrifol a chyfundrefnol, er enghraifft, drwy'r System Wybodaeth Cofnodion Troseddol Ewropeaidd.

## E. Cytundeb cyfreithiol rwymol

2.128 **Y brif elfen yn y cytundeb y mae'r Llywodraeth wedi'i sicrhau yw Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol y cytunwyd arno gan holl Benaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth Aelod-wladwriaethau'r UE .**

2.129 Mae'r Penderfyniad hwn yn gyfreithiol rwymol o dan gyfraith ryngwladol a bydd yn dod i rym os bydd pobl Prydain yn pleidleisio i aros yn yr UE. Byddai'r Penderfyniad yn cael ei gofrestru fel cytuniad gyda'r Cenhedloedd Unedig.[55] Mae ei statws cyfreithiol rwymol wedi'i gadarnhau gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor[56] ac wedi'i gydnabod yn ffurfiol gan yr holl Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd a fabwysiadwyd yr un pryd â'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol ar 19 Chwefror 2016.

2.130 Mae hefyd yn benderfyniad na ellir ei ddad-wneud: cytunwyd arno gan yr holl Aelod-wladwriaethau eraill,[57] ac ni ellir ei ddiwygio na'i ddirymu oni bai fod yr holl Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn cytuno ar hynny.[58] Mae'r sefyllfa hon hefyd wedi'i chydnabod yn ffurfiol gan bob un o'r Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd a fabwysiadwyd yr un pryd â'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol, ac mae wedi'i chadarnhau gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor.[59] Mae'r Llywodraeth yn glir na fydd y DU yn derbyn cais i ddiwygio neu dynnu'n ôl y penderfyniad hwn. Mae hyn yn rhoi sicrwydd llwyr i ni y bydd yn aros yn rhan hanfodol o'n haelodaeth o'r UE diwygiedig.

## Cynsail

2.131 Mae defnyddio Penderfyniad rhwymol o dan Gyfraith Ryngwladol fel hyn yn ddull profedig.

2.132 Ym 1992, cytunodd Aelod-wladwriaethau'r UE ar Benderfyniad rhwymol o dan Gyfraith Ryngwladol i ddelio â phryderon a godwyd gan Ddenmarc mewn perthynas â darpariaethau Cytuniad Maastricht.[60] Mynnodd Llywodraeth Denmarc fod rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gyfreithiol rwymol, a chafwyd cadarnhad gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor ei fod felly.[61] Ar ôl hynny ychwanegwyd Protocol yn ymdrin â phryderon Denmarc at Gytuniadau'r UE wrth eu diwygio drwy Gytuniad Amsterdam.

2.133 Yn 2009, cytunodd Aelod-wladwriaethau'r UE eto ar Benderfyniad rhwymol o dan Gyfraith Ryngwladol i ymateb i bryderon a fynegwyd gan Iwerddon ynghylch rhai darpariaethau yng Nghytuniad Lisbon. Cafwyd ymrwymiad clir hefyd y byddai'r Aelod-wladwriaethau'n diwygio'r Cytuniadau er mwyn ychwanegu Protocol yn cynnwys telerau'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol.[62] Mabwysiadwyd y Protocol yr un pryd ac ochr yn ochr â chwblhau'r Cytuniad i Dderbyn Croatia.[63] Roedd y dull hwn wedi datrys pryderon Iwerddon ac mae'n parhau mewn grym heddiw.

---

55 Yn unol ag Erthygl 102 o Siarter y Cenhedloedd Unedig

56 Barn y Gwasanaeth Cyfreithiol, 8 Chwefror 2016, EUCO 15/16 Limite JUR 64

57 Yn unol ag Erthyglau 11 a 14(2) o Gonfensiwn Fienna ar Gyfraith Cytuniadau

58 Gweler Erthyglau 54 a 39 o Gonfensiwn Fienna ar Gyfraith Cytuniadau.

59 Barn y Gwasanaeth Cyfreithiol, 8 Chwefror 2016, EUCO 15/16 Limite JUR 64.

60 Sef un rhan o'r pecyn o fesurau sy'n cael ei galw'n aml yn 'Gytundeb Caeredin'.

61 Rhoddwyd sicrwydd i'r perwyl hwn i Dŷ'r Cyffredin gan John Major (HC Deb, 14 Rhagfyr 1992, c.29

62 Gwnaed yr ymrwymiad hwn mewn datganiad gan y Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth, a gofnodwyd yng nghasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd ym Mehefin 2009.

63 Protocol ar bryderon pobl Iwerddon ynghylch Cytuniad Lisbon, OJ L 60, 2.3.2013, p. 131–139.

## Agweddau ar y Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol

2.134 Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol a gawsom yn gwneud y canlynol:

- mae'n cytuno ar y ffordd o ddehongli Cytuniadau'r UE yn y dyfodol gan egluro, er enghraifft, na ellir defnyddio cyfeiriadau mewn Cytuniadau at undeb agosach fyth i ehangu cwmpas pwerau'r UE;
- mae'n creu ymrwymiadau ynghylch sut y bydd Aelod-wladwriaethau'n gweithredu yn y Cyngor, er enghraifft, i roi ein gweithdrefn "cerdyn coch" newydd ar waith ar gyfer seneddau cenedlaethol;
- mae'n cytuno y bydd yr Aelod-wladwriaethau, gan ddilyn y gweithdrefnau yn y Cytuniadau a gofynion eu priod gyfansoddiadau, yn diwygio Cytuniadau'r UE yn y dyfodol i ddelio â phrif bryderon y DU.

2.135 Ym mhob un o'r tri maes hyn, mae'r sefyllfa'n glir: mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn gyfreithiol rwymol ac ni ellir ei ddad-wneud.

## Dehongli Cytuniadau'r UE

2.136 O dan Gonfensiwn Fienna ar Gyfraith Cytuniadau, rhaid dehongli cytuniad rhyngwladol yng nghyd-destun unrhyw gytundebau rhwng y partïon ynghylch ei ystyr. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r cytundeb perthnasol wedi'i wneud ar ôl cwblhau'r cytuniad.[64]

2.137 Mae'r Penderfyniad o dan Gyfraith Ryngwladol yn cynnwys darpariaethau sy'n adlewyrchu cytundeb rhwng Aelod-wladwriaethau ynghylch ystyr Cytuniadau'r UE, er enghraifft, bod Aelod-wladwriaethau i aros yn llwyr gyfrifol am ddiogelwch gwladol. Fel y mae Llys Cyfiawnder Ewrop wedi cadarnhau yn achos *Rottmann*,[65] bydd yn ofynnol iddo ystyried y darpariaethau hyn wrth ddehongli'r Cytuniadau yn y dyfodol, felly bydd grym gan y penderfyniad a gawsom o flaen y llysoedd. Cadarnhawyd y sefyllfa hon gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor,[66] a chan yr Athro Syr Alan Dashwood QC.[67]

## Gweithredoedd yn y Cyngor

2.138 Mae'r penderfyniad a gawsom yn creu rhwymedigaeth gyfreithiol rwymol na ellir ei dad-wneud ar Aelod-wladwriaethau'r UE ynghylch sut y byddant yn gweithredu yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd mewn sefyllfaoedd penodol. Er enghraifft, i roi ein gweithdrefn "cerdyn coch" newydd mewn grym ar gyfer seneddau cenedlaethol.

2.139 Mae cynsail wedi'i osod ar gyfer hyn. Mae Erthygl 7 o'r Cytuniad ar Sefydlogrwydd, Cydgysylltu a Llywodraethu (a elwir yn aml yn 'Gompact Cyllidol'), sydd wedi'i wneud gan 25 o'r Aelod-wladwriaethau, yn rhwymo'r Aelod-wladwriaethau hynny a'i llofnododd i bleidleisio o blaid cynigion penodol, oni bai fod mwyafrif cymwysedig yn gwrthwynebu hynny.

---

64 Erthygl 31(3)(a) o Gonfensiwn Fienna ar Gyfraith Cytuniadau

65 Rottmann, C-135/08, EU:C:2010:104, paragraff 40.

66 Barn y Gwasanaeth Cyfreithiol, 8 Chwefror 2016, EUCO 15/16 Limite JUR 64.

67 A "Legally Binding and Irreversible" Agreement on the Reform of the EU', Yr Athro Syr Alan Dashwood QC. http://www.hendersonchambers.co.uk/wp-content/uploads/2016/02/Note-by-Sir-Alan-Dashwood-QC-19-February-2016.pdf.

## Diwygio'r Cytuniadau yn y dyfodol

2.140 Mae'r penderfyniad a gawsom hefyd yn cynnwys ymrwymiad cyfreithiol na ellir ei ddad-wneud y bydd yr Aelod-wladwriaethau ar y cyfle nesaf, ac ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'u priod ofynion cyfansoddiadol a'r gweithdrefnau yng Nghytuniadau'r UE, yn diwygio Cytuniadau'r UE i ddelio â phrif bryderon y DU.

2.141 Mae cynseiliau pwysig ar gyfer ymrwymiadau o'r fath i newid Cytuniadau yn y dyfodol.

2.142 Er enghraifft, cafwyd ymrwymiad tebyg i newid Cytuniadau yn y dyfodol i ddelio â phryderon Iwerddon ynghylch Cytuniad Lisbon. Yn yr achos hwnnw, gwnaed yr ymrwymiad i newid Cytuniadau yn y dyfodol yng nghasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd, sy'n wleidyddol rwymol yn hytrach na chyfreithiol rwymol. Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwnnw. Diwygiwyd y Cytuniadau yr un pryd ac ochr yn ochr â'r cytuniad yn darparu ar gyfer derbyn Croatia i'r UE.[68]

2.143 Mae hyn yn dangos y gall Aelod-wladwriaethau'r UE wneud ymrwymiadau y byddant, gan weithredu'n unol â gweithdrefnau perthnasol y Cytuniadau a'u priod ofynion cyfansoddiadol, yn diwygio'r Cytuniadau yn y dyfodol, a hefyd fod ymrwymiadau o'r fath wedi'u cyflawni.

2.144 Yn ein hachos ni, mae'r ymrwymiad hwn i newid y Cytuniadau yn y dyfodol yn gyfreithiol rwymol, ac mae hyn yn rhoi'r cytundeb a gawsom ar sail sydd hyd yn oed yn fwy cadarn na'r hyn a sicrhaodd Iwerddon.

## Casgliad

2.145 Mae ein setliad newydd yn sicrhau'r newid sylweddol a'r sicrwydd cyfreithiol sydd eu hangen arnom. Mae'n sicrhau newid sylweddol, cyfreithiol rwymol na ellir ei ddad-wneud yn ein haelodaeth o'r UE ym mhob un o'r 4 maes a godwyd gan y Prif Weinidog ar ddechrau'r negodiadau hyn.

---

68 Mae hefyd yn werth nodi bod y Cyngor Ewropeaidd wedi ymrwymo yr un pryd i sicrhau bod pob Aelod-wladwriaeth yn cadw comisiynydd. Roedd yr ymrwymiad a roddwyd yn darparu y byddai penderfyniad yn cael ei wneud, pan ddeuai Cytuniad Lisbon i rym, yn unol â'r gweithdrefnau cyfreithiol angenrheidiol i ganiatáu cadw un Comisiynydd ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth. Roedd yr ymrwymiad hwn ar wahân i'r addewid i ymgorffori gwahanol faterion mewn Protocol ar gyfer Iwerddon, ac fe'i trafodwyd ar wahân ond, unwaith eto, cydymffurfiwyd ag ef a diwygiwyd y Cytuniadau.

# Pennod 3 – amddiffyniadau ehangach ac optio allan

3.1 **Mae'r cytundeb a gafwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Chwefror yn creu setliad newydd i'r DU yn yr UE. Mae'n ychwanegu at nifer o amddiffyniadau ehangach a threfniadau optio allan yr oedd y DU wedi'u sicrhau eisoes ac sydd wedi'u cynnwys yng Nghytuniadau'r UE ac mewn deddfwriaeth ddomestig. Mae hyn yn rhoi statws arbennig i'r DU yn yr UE nad oes ei debyg gan yr un Aelod-wladwriaeth arall o'r UE nac mewn unrhyw drefniant â thrydedd wledydd.**

## Amddiffyniadau yn Ewrop

- **Yr ewro:** nid yw'r DU o dan rwymedigaeth i ymuno â'r ewro.
- **Ardal Schengen:** mae gan y DU hawl i gynnal ei rheolaethau ffiniau ei hun, ac i aros y tu allan i ardal ddi-ffiniau Schengen, heb atal pobl Prydain rhag symud yn rhydd o fewn yr UE.
- **Cyfiawnder a Materion Cartref:** gall y DU ddewis a fydd yn cymryd rhan neu beidio mewn mesurau newydd ar Gyfiawnder a Materion Cartref yn yr UE. Mae hyn yn golygu y gallwn gymryd rhan mewn agweddau hanfodol ar gydweithredu yn erbyn troseddu ar draws ffiniau heb beryglu ein systemau cyfiawnder unigryw ein hunain.

3.2 Mae ein setliad newydd yn adeiladu ar sail y trefniadau optio allan hyn gan roi amddiffyniadau cryfach byth i statws y DU yn y dyfodol:

- bydd sofraniaeth y DU wedi'i diogelu'n barhaol rhag y bygythiad o ddod yn rhan o undeb agosach fyth;
- bydd pŵer gan Senedd y DU i gydweithio â'i chymheiriaid yn Ewrop i atal deddfwriaeth yr UE;
- bydd trefniadau tryloyw a sefydlog ar waith i sicrhau sefyllfa economaidd y DU y tu allan i Ardal yr Ewro;
- rydym wedi sicrhau ymrwymiad i wneud newidiadau pwysig a fydd yn helpu i ddiogelu'r DU rhag y bygythiad o droseddu gan unigolion sy'n symud o gwmpas yr UE, yn delio â'r camfanteisio ar y rhyddid i symud, ac yn cyfyngu ar hawl gwladolion o wledydd eraill yr UE i gael buddion o'n system lles.

3.3 Drwy fod â sedd wrth y bwrdd yn yr UE, rydym hefyd wedi gallu sicrhau amddiffyniadau mewn deddfwriaeth i'n helpu i ddiogelu buddiannau'r DU. Er enghraifft, mewn

negodiadau ynghylch Oriau Gwaith, roedd y DU yn gallu sicrhau hawl i optio allan o’r wythnos waith hwyaf o 48 awr ar gyfer gweithwyr unigol.

3.4 Pan gaiff gwledydd newydd eu derbyn i’r UE yn y dyfodol, bydd y DU yn mynnu na ellir codi ein rheolaethau ar symud yn rhydd nes bydd eu heconomïau wedi cydgyfeirio’n agosach o lawer ag economïau’r Aelod-wladwriaethau presennol, ar sail dangosyddion fel eu CMC y pen, cyfradd cyflogaeth a dosbarthiad cyfoeth. A byddem yn ceisio ailosod y rheolaethau hyn os ceir ansefydlogi sylweddol ar ein marchnad lafur neu effeithiau niweidiol ar bolisi cymdeithasol neu gyhoeddus yn y DU o ganlyniad i fewnfudo o’r Aelod-wladwriaeth newydd hon. Bydd unrhyw ehangu’n galw am unfrydedd ymysg yr Aelodau presennol ac, yn y DU, Deddf Seneddol, fel y gall y DU sicrhau bod y gofynion hyn wedi’u parchu mewn unrhyw drafodaeth ar ehangu’r UE.

## Amddiffyniadau domestig

3.5 Ar lefel ddomestig, rydym wedi cynnwys amddiffyniadau cryf yng nghyfraith y DU rhag symud sofraniaeth i’r UE. Mae Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i refferendwm gael ei gynnal ar ein haelodaeth o’r UE; bydd y Llywodraeth yn cynnig iddo gael ei gynnal ar 23 Mehefin 2016. Ac mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd 2011 yn sicrhau na ellir trosglwyddo unrhyw bŵer neu gymhwysedd ychwanegol i’r UE nac ildio ein feto cenedlaethol heb gael cymeradwyaeth ddatganedig gan ein Senedd a chydsyniad gan bobl Prydain mewn refferendwm newydd.

3.6 Yn benodol, byddai angen cynnal refferendwm pellach i gymeradwyo:

- diwygio Cytuniadau’r UE i drosglwyddo pŵer o’r DU i’r UE;
- disodli Cytuniadau’r UE;
- dileu unrhyw bwerau sydd gan y DU i roi feto ar weithredoedd yr UE;
- penderfyniad gan y DU i gymryd rhan mewn Swyddfa Erlynydd Cyhoeddus Ewropeaidd;
- penderfyniad gan y DU i ymuno â’r ewro.

3.7 Yn fyr, mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd 2011 yn rhoi pŵer yn nwylo Senedd y DU a phobl Prydain. Rhaid cael unfrydedd ar lefel yr UE i newid y Cytuniadau; rhaid i Senedd y DU gytuno ar y newid; a byddai angen i bobl Prydain ei gymeradwyo mewn refferendwm – dyma glo democrataidd triphlyg rhag unrhyw gamau pellach i integreiddio yn yr UE.

# Pennod 4 – Y gorau o'r ddau fyd: pam y dylai'r DU aros yn aelod o UE diwygiedig

4.1 **Mae rhai o wledydd yr UE wedi dewis dilyn y llwybr o integreiddio gwleidyddol dyfnach. Maent yn rhydd i wneud y dewis hwnnw, ond nid yw'r DU am ddilyn y llwybr hwn. Bydd ein setliad newydd yn rhoi statws arbennig i'r DU yn yr UE na ellid ei gael mewn unrhyw drefniant y tu allan i'r UE. Gallwn arfer ein dylanwad ar y lefel uchaf yn Ewrop i sicrhau ein buddiannau cenedlaethol, gan aros y tu allan i feysydd lle'r ydym wedi negodi trefniadau cenedlaethol i optio allan. Rydym yn gryfach, yn fwy diogel ac yn well ein byd mewn UE diwygiedig.**

4.2 Yn y ddogfen hon, rydym wedi amlinellu'r manteision a sicrhawyd yn ein setliad newydd mewn UE diwygiedig. Yn 2013, dywedodd y Prif Weinidog "Britain's national interest is best served in a flexible, adaptable and open EU".[69] O ganlyniad i'r newidiadau yr ydym wedi'u sicrhau, fe fydd yr UE yn fwy hyblyg, yn fwy parod i addasu ac yn fwy agored. Mae rhagor o waith i'w wneud. Byddwn yn parhau i bwyso'n galed am fwy o ddiwygio yn yr UE; torri biwrocratiaeth ac adeiladu ar sail y toriad cyntaf erioed yng ngwariant yr UE i sicrhau bod cyllideb yr UE yn rhoi mwy o werth am arian y trethdalwyr. Ond mae'r setliad hwn yn rhoi aelodaeth y DU ar sail gadarnach.

4.3 Rhaid i'n haelodaeth o'r UE gyflawni pwrpas bob amser: y pwrpas hwnnw yw sicrhau ein buddiant cenedlaethol. Wrth fod ar ganol y penderfyniadau yn yr UE, gan gydweithio'n agos â'n partneriaid, mae gennym ddylanwad sylweddol dros benderfyniadau pwysig ar bolisi economaidd, diogelwch a thramor sy'n effeithio ar gyfandir Ewrop i gyd. Mae'r dylanwad hwnnw'n dod â mantais i'r wlad hon a bywydau pob un o'n dinasyddion. Ond rydym yn cadw'r rhyddid i ddewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, nad ydynt er budd y DU.

## Yn well ein byd yn yr UE

4.4 **Mae cynllun economaidd hirdymor y Llywodraeth yn sicrhau diogelwch economaidd i deuluoedd a busnesau, ar sail rheolaeth gadarn ar gyllid cyhoeddus, drwy fuddsoddi yn nyfodol y DU, wynebu'r her o ran cynhyrchiant a newid cydbwysedd yr economi tuag at fasnach a buddsoddi. Yn wyneb ansefydlogrwydd yn economi'r byd, mae aelodaeth o'r UE yn ategu'r cynllun hwn drwy alluogi busnesau ym Mhrydain i gael mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer masnach rydd a dwsinau o gytundebau masnach ym mhedwar ban byd. Mae'r cytundeb a gawsom yn cadw'r UE ar y llwybr cywir drwy wneud cystadleurwydd yn rhan annatod o benderfyniadau gan**

69 23 Ionawr 2013. Dolen i drawsgrifiad yr araith yma: https://www.gov.uk/government/speeches/eu-speech-at-bloomberg

**yr UE a rhwymo'r UE i geisio gwneud rhagor o gytundebau masnach â gwledydd y tu allan i'r UE.**

4.5 Bellach mae'r Farchnad Sengl yn rhoi mynediad heb dariffau i fusnesau a defnyddwyr y DU i'r bloc masnachu mwyaf yn y byd sy'n cynnwys 500 miliwn o bobl a 26 miliwn o gwmnïau sy'n creu bron £11 triliwn o weithgarwch economaidd,[70] ac mae £229 biliwn o allforion y DU yn mynd i'r UE.[71] Y fantais hanfodol yw ei bod hefyd yn chwalu rhwystrau rheoliadol i'n busnesau yng ngwledydd eraill yr UE. Mae aelodaeth y DU yn sicrhau diogelwch economaidd drwy ein galluogi i gael manteision y Farchnad Sengl, a hefyd drwy ein galluogi i gymryd rhan yn y broses o'i ffurfio. Gweledigaeth a chreadigaeth Prydain oedd y Farchnad Sengl i raddau helaeth.

4.6 Fel gwlad sy'n masnachu, nid yw'r DU yn wynebu dewis ffug rhwng Ewrop a gweddill y byd: ein huchelgais yw masnachu i'r graddau mwyaf posibl â'r ddau. Er bod yr economïau datblygol yn tyfu'n gyflym, yr UE yw ein partner masnachu pwysicaf o hyd. Er 1992, mae masnach nwyddau ddwyochrog y DU ag Aelod-wladwriaethau eraill yr UE wedi treblu bron mewn termau nominal[72] a'r UE sy'n cymryd 44 y cant o allforion y DU.[73] Mae allforio i'r UE yn bwysig iawn i fusnesau llai. Mae mwy na 60 y cant o'r allforion o fusnesau bach (llai na 50 o weithwyr) yn mynd i'r UE ac yn achos busnesau micro (llai na 10 o weithwyr) mae'r ffigur yn codi i 70 y cant.[74]

4.7 Ar yr un pryd, mae'r DU yn elwa o ddylanwad economaidd ehangach yr UE, sydd wedi'i alluogi i negodi cytundebau masnach rydd manteisiol â mwy na 50 o wledydd eraill.[75] Mae hyn yn caniatáu i ni fanteisio ar gyfleoedd o dwf ym mhob rhan o'r byd. Pan gwblheir yr holl gytundebau masnach sydd eisoes ar y gweill, gallent fod yn werth cyfanswm o fwy na £20 biliwn y flwyddyn i CMC y DU yn y pen draw.[76] OAr ôl cwblhau'r cytundebau hyn, bydd tua thri chwarter o allforion y DU i wledydd y tu allan i'r UE yn dod o dan Gytundebau Masnach Rydd sydd wedi'u negodi gan yr UE.[77] Byddai'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig yn gallu ychwanegu £10 biliwn at CMC y DU ar ei phen ei hun.[78] Mae'r UE eisoes yn brif bartner masnachu i 59 o wledydd sy'n cynnwys mwy na hanner economi'r byd, tua dwywaith yn fwy na'r UDA, sy'n brif bartner masnachu i 24 o wledydd.[79]

70 Ffynhonnell: Eurostat; y ffynhonnell wedi'i chyfrifo mewn ewros yn wreiddiol

71 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015)

72 COMTRADE, Banc Lloegr

73 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book 2015 (Hydref 2015)

74 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 'UK trade in goods by business characteristics 2014'. Mae'r ystadegau hyn yn arbrofol. Cyfanswm y busnesau yn y DU yn 2014 (2,361,000) o gyhoeddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *UK Business: Activity, Size and Location, 2015* (Hydref 2015).

75 http://trade.ec.europa.eu/doclib/html/118238.htm

76 Amcangyfrif BIS, wedi'i seilio ar astudiaethau sy'n amcangyfrif yr effaith o gytundebau penodol, gan gynnwys astudiaeth CEPR o'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/198115/bis-13-869-economic-impact-on-uk-of-tranatlantic-trade-and-investment-partnership-between-eu-and-us.pdf

77 Dadansoddiad BIS wedi'i seilio ar gyhoeddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book 2015

78 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/198115/bis-13-869-economic-impact-on-uk-of-tranatlantic-trade-and-investment-partnership-between-eu-and-us.pdf

79 Dadansoddiad gan BIS o ddata UNCTAD

## Yn fwy diogel yn yr UE

4.8 **Mae ein setliad newydd yn ailddatgan mai llywodraethau cenedlaethol sy'n llwyr gyfrifol am ddiogelwch gwladol ac y bydd sefydliadau'r UE yn parchu cyfrifoldebau'r Aelod-wladwriaethau o ran diogelwch gwladol yn llawn. Ar yr un pryd, mae aelodaeth o'r UE yn rhoi mwy o allu i ni gydweithredu ag Aelod-wladwriaethau eraill i ymladd yn erbyn troseddu a therfysgaeth ac i gadw ein gwlad yn ddiogel. Yn yr UE, mae'r DU yn gweithio'n gytûn â'n cymdogion i atal ymosodiadau gan ein gelynion ac i ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys gwrthdaro newydd.**

4.9 Rydym wedi diogelu ein gallu i ddewis pa bryd y byddwn yn cydweithredu ym maes Cyfiawnder a Materion Cartref, gan gadw sofraniaeth dros gannoedd o bwerau i'r DU. Fodd bynnag, mae cydweithredu rhwng awdurdodau sy'n gorfodi'r gyfraith ar draws Ewrop yn hanfodol weithiau oherwydd natur drawsffiniol y bygythiadau i ddiogelwch, fel troseddu difrifol a chyfundrefnol, terfysgaeth ac eithafiaeth. Mae fframwaith cadarn ar gyfer hyn yn yr UE sy'n darparu ar gyfer cydweithio ymarferol a ffyrdd effeithiol o rannu data mewn amser real, gan ein helpu i warchod ein dinasyddion. Rydym yn dewis cymryd rhan yn y meysydd hanfodol hyn, ac mae Senedd y DU yn cael mynegi barn ynghylch a fyddwn yn gwneud hyn.

4.10 Mae'r Warant Arestio Ewropeaidd yn ei gwneud yn haws i ni estraddodi rhai sydd o dan amheuaeth o droseddu yn ôl i'r gwledydd sy'n chwilio amdanynt – ac yn dod â rhai sydd o dan amheuaeth yn ôl i'r DU i ateb am droseddau sydd wedi'u cyflawni yma. Er 2004 mae'r Warant Arestio Ewropeaidd wedi caniatáu i 7,000 o bobl gael eu hestraddodi o'r DU i wynebu treial neu gwblhau dedfryd ac wedi arwain at ddychwelyd 1,000 o bobl i'r DU i wynebu cyfiawnder.[80]

4.11 Mae Europol, corff yr UE ar gyfer cydweithredu ar orfodi'r gyfraith, sy'n cael ei arwain gan un o Brydain ar hyn o bryd, yn hwyluso ffyrdd o gyfnewid gwybodaeth, yn gweithredu fel canolfan i gasglu cudd-wybodaeth ac yn darparu asesiadau o fygythiadau a chymorth gweithredol a thechnegol. Mae wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus i fynd i'r afael â seiberdroseddu, pornograffi plant, a masnachu mewn cyffuriau a phobl ledled yr UE.

4.12 Mae system rhestr wylio'r UE yn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU i gael rhybuddion am oddeutu 300,000 o bobl sydd ar goll neu'n ffoi rhag y gyfraith, gan gynnwys rhai sydd o dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr, llofruddion neu bedoffiliaid. Mae'r rhybuddion hyn yn cynnwys 35,000 o Warantau Arestio Ewropeaidd yn ogystal ag ymhell dros 8,000 o rybuddion ar wahân am fygythiadau i ddiogelwch gwladol neu gyhoeddus, gan gynnwys rhai sydd o dan amheuaeth o fod yn ymladdwyr o wledydd tramor.[81] Gan ein bod wedi cadw rheolaeth dros ein ffiniau, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i dracio troseddwyr a rhai sydd o dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr, a'u rhwystro pan fyddant yn ceisio dod i mewn i'r DU.

4.13 Mae'r UE wedi cytuno i ganiatáu casglu gwybodaeth o gofnodion enwau teithwyr cwmnïau hedfan ar deithiau mewnwladol a thramor i'w phrosesu gan asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith mewn Aelod-wladwriaethau. Bydd hyn yn helpu ein heddluoedd ac asiantaethau cudd-wybodaeth i wrthsefyll bygythiadau gan derfysgwyr.

4.14 Yn ogystal ag elwa o gael cymryd rhan yn y mesurau hyn, fel aelod o'r UE, mae gan y DU le wrth y bwrdd wrth ddatblygu mesurau o'r fath sy'n dibynnu ar ei haelodaeth o'r UE. Ond mae'r setliad yn sicrhau parch hefyd i statws arbennig y DU – er enghraifft, mae gennym

---

80 Ffynhonnell: Historical European Arrest Warrant Statistics, NCA, http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/publications/european-arrest-warrant-statistics/historical-eaw-statistics

81 Ystadegau eu-LISA (Chwefror 2016)

hawl i ddewis a fyddwn am gymryd rhan mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd ym maes Cyfiawnder a Materion Cartref.

## Yn gryfach yn yr UE

4.15 **Mae aelodaeth o'r UE, fel ein haelodaeth o NATO a'r Cenhedloedd Unedig, yn ehangu pŵer a dylanwad y DU ar lefel ryngwladol. Mewn cyfnod pan ydym yn wynebu nifer cynyddol o fygythiadau difrifol, mae cydweithredu ar lefel ryngwladol yn bwysicach nag erioed. Mae nifer o ddulliau gwahanol o weithredu ar gael i'r UE, gan gynnwys rhai diplomyddol, economaidd a dyngarol a rhai'n ymwneud â diogelwch. Felly mae ein dylanwad yn yr UE yn fanteisiol i'r UE ac i'r DU. Ar yr un pryd, ni ellir byth ein gorfodi i gymryd rhan ym mesurau'r UE yn y maes hwn os nad ydym yn cytuno â nhw neu os ydynt yn groes i'n buddiant cenedlaethol.**

4.16 NATO yw conglfaen amddiffyn y DU o hyd ac ni fyddwn byth yn ildio rheolaeth dros benderfyniadau o'r fath i'r UE. Er hynny, mae'r UE yn ategu gweithgareddau milwrol dwysach NATO drwy waith pwysig yn y tymor hwy ar gyfer sefydlogi a datblygu.

4.17 Mae'r UE yn helpu i ddelio ag argyfyngau mewn gwledydd tramor. Drwy gyfuno dylanwad ei Aelod-wladwriaethau, mae'r UE yn meithrin partneriaethau â gwledydd allweddol er mwyn hybu sefydlogrwydd ac osgoi argyfyngau yn y dyfodol.

4.18 Mae gan y DU ddylanwad sylweddol mewn trafodaethau ar faterion rhyngwladol yn y Cyngor Ewropeaidd. Drwy gydweithio â chynghreiriaid, mae'r DU wedi sbarduno gweithgarwch gan yr UE mewn meysydd allweddol, gan harneisio grym 28 o wledydd a sicrhau mwy o effaith nag y byddem wedi'i chael wrth weithredu ar ein pen ein hunain, er enghraifft:

- **cytundeb ar faterion niwclear ag Iran**. Roedd gan y DU ran mewn cymell yr UE i osod sancsiynau caled ar Iran, ac mewn llywio'r negodiadau a arweiniodd at gytundeb. A thrwy gydweithredu ar draws yr UE i osod sancsiynau, yn hytrach na bod y DU yn gweithredu ar ei phen ei hun, cafwyd mwy o effaith;
- **ymosodedd Rwsia yn Ukrain**. Roedd y DU a'i chynghreiriaid wedi sicrhau bod yr UE yn gosod sancsiynau caled ar y cyd ar Rwsia, sy'n cael effaith sylweddol ar economi Rwsia;
- **gosod sancsiynau ar Syria**. Roedd y DU wedi cydweithio'n agos ag Aelod-wladwriaethau eraill i gytuno ar sancsiynau ar lywodraeth Syria, a chymorth i'r rheini sydd wedi'u dadleoli yn Syria a'r rhanbarth, sydd bellach yn dod i gyfanswm o fwy na £3.5 biliwn oddi wrth yr UE;[82]
- **ymladd yn erbyn Ebola**. Roedd y DU wedi chwarae rhan bwysig mewn sbarduno gweithredu gan yr UE ar Ebola, ochr yn ochr â'n trefniadau i ddarparu mwy na 150 o staff y GIG a llong feddygol y Llynges Frenhinol, RFA Argus. Roedd arweinwyr Ewrop wedi ymateb drwy ddarparu tua £1.5 biliwn ar gyfer datblygu, cymorth ac ymchwil;[83]
- **gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni.** Yng nghynhadledd yr hinsawdd ym Mharis yn Rhagfyr 2015, helpodd y DU i sicrhau bod yr UE yn rhan o

---

82 European Commission Humanitarian Aid and Civil Protection (Chwefror 2016). Roedd y ffynhonnell wreiddiol mewn ewros

83 http://ec.europa.eu/echo/files/aid/countries/factsheets/thematic/wa_ebola_en.pdf Roedd y ffynhonnell wreiddiol mewn ewros.

gynghrair o wledydd a sicrhaodd y cytundeb cyfreithiol rwymol a chyffredinol cyntaf erioed ar hinsawdd y byd, a lofnodwyd gan 195 o wledydd. Mae'r UE a'i Aelod-wladwriaethau'n cymryd camau eisoes i leihau allyriadau 40 y cant o leiaf erbyn 2030.

4.19 Mae cynghreiriaid agosaf y DU y tu allan i Ewrop – gan gynnwys Awstralia a Seland Newydd, UDA a Chanada – i gyd am ein gweld yn aros yn yr UE, gan ein bod yn fwy diogel wrth fod yn unedig.

## Casgliad: y gorau o'r ddau fyd

4.20 **Mae statws arbennig y DU yn yr UE yn cynnig cyfle i ni ddiogelu ein pobl a sicrhau ffyniant, fel gwlad sofran yn gweithredu mewn partneriaeth ag Aelod-wladwriaethau eraill. Mae gennym hawliau pleidleisio llawn, lle wrth y bwrdd a phob dylanwad dros bennu rheolau'r Farchnad Sengl, ond rydym yn aros y tu allan i weithgareddau'r UE lle nad ydynt yn addas i ni. Mae hyn yn rhoi i ni:**

- rôl flaenllaw y tu mewn i Ewrop, ynghyd ag amddiffyniadau parhaol i'n sofraniaeth, eithriad penodol o'r gofyniad am 'undeb agosach fyth' a mwy o bŵer i Senedd y DU;
- perthynas decach a mwy tryloyw rhwng y bunt a'r ewro, gan roi diogelwch ariannol i'n busnesau ar gyfer y dyfodol;
- mynediad i'r Farchnad Sengl fwyaf yn y byd, gyda dylanwad mawr dros siapio'r farchnad honno, fel y ceir llai o reoleiddio a mwy o gystadleuaeth yn y dyfodol, gan greu swyddi a rhoi mwy o ddiogelwch ariannol i deuluoedd y DU;
- cydweithredu ar faterion diogelwch rhyngwladol a pholisi tramor, sy'n helpu i fynd i'r afael â throseddu a therfysgaeth ar draws ffiniau i gadw ein gwlad yn ddiogel, gan gadw ein hawl i beidio â chymryd rhan ym mesurau'r UE os nad ydynt yn gyson â'n buddiant cenedlaethol
- y gallu i ddinasyddion y DU symud yn rhydd ar draws yr UE, ond y gallu i gymryd camau os oes camfanteisio ar ein system lles neu reolau mewnfudo, ac atalfa frys i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid o'r UE yn gorfod byw yma a chyfrannu cyn cael yr holl fuddion o system budd-daliadau'r DU.

4.21 O bob safbwynt, mae natur unigryw ein haelodaeth o'r UE yn rhoi statws arbennig i'r DU yn y sefydliad: statws na cheir ei debyg mewn unrhyw drefniant y tu allan i'r UE. Dyma'r gorau o'r ddau fyd sy'n cynnig manteision allweddol i ni ar gyfer swyddi a thwf na allem eu cael y tu allan i'r UE, ond yn rhoi rhyddid hefyd i ddewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, nad ydynt er budd y DU.

4.22 Dyma setliad newydd ar ein haelodaeth o'r UE sy'n parchu gorffennol y DU; mae'n dda ar gyfer buddiannau cenedlaethol y DU; ac mae'n addas ar gyfer dyfodol y DU.

4.23 Mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno, os mai canlyniad y refferendwm fydd pleidlais y dylai'r DU adael yr UE, yna bydd y set o drefniadau sydd yn y setliad newydd yn peidio â bod.

4.24 **Felly mae'r Llywodraeth wedi ffurfio barn glir. Bydd buddiant cenedlaethol y DU – buddiannau pob teulu, aelwyd, cymuned a chenedl o fewn y Deyrnas Unedig – yn cael ei sicrhau orau os bydd ein gwlad yn aros yn rhan o UE diwygiedig.**

4.25 Mae aelodaeth o’r UE diwygiedig yn cynnig cyfleoedd a diogelwch: ar gyfer swyddi, buddsoddi, gwneud busnes, yn ogystal â mynd i’r afael â throseddu a delio â materion byd-eang fel y newid yn yr hinsawdd a therfysgaeth. Mae’n cynnig sicrwydd i ni. Rydym yn gryfach, yn fwy diogel ac yn well ein byd yn yr UE, o’i gymharu â blynyddoedd o ymyrraeth a’r ansicrwydd o adael heb wybod ble fydd pen y daith y tu allan.

4.26 Nod sylfaenol y Llywodraeth hon yw cynnig diogelwch i bobl sy’n gweithio ar bob cam yn eu bywydau. Dyma’r modd i sicrhau bod potensial pob un o’n dinasyddion yn cael ei wireddu. Ac aros yn aelod o’r UE yw’r ffordd orau o sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod hwn. Y cwestiwn i’w ateb yn y refferendwm a gynhelir cyn hir yw nid a allai’r DU ymdopi y tu allan i’r UE, ond beth sydd orau i ddyfodol ein gwlad.

4.27 **Yn y refferendwm, argymhelliad clir y Llywodraeth yw y dylai’r Deyrnas Unedig aros yn aelod o UE diwygiedig.**

Llywodraeth EM

ISBN 978-1-4741-2882-7